# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 24 Hydref 2024

Amser: 10.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(10.15 - 10.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(10.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.30)

## 2 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 16

(10.30 - 12.30) (Tudalennau 1 - 49)

Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Sioned Tobias, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Canfyddiadau arolwg

## 3 Papurau i'w nodi

(12.30)

### 3.1 Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon

(Tudalennau 50 - 52)

**Dogfennau atodol:**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

**3.2 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 53 - 66)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

**3.3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalen 67)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**3.4 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

(Tudalen 68)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

**3.5 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 69 - 73)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth Estyn yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Hydref 2024

**3.6 P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)**

(Tudalennau 74 - 75)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**3.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26**

(Tudalennau 76 - 81)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**3.8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26**

(Tudalennau 82 - 92)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.30)

## Cyfarfod preifat

(12.30)

## Egwyl

(12.30 - 12.45)

## 5 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) - trafod y materion allweddol

(12.45 - 13.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

## Canfyddiadau arolwg

Hydref 2024

## Y cefndir

**1.** Fel rhan o ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), cynhaliwyd arolwg i gael safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru ynghylch dysgu Cymraeg yn yr ysgol.

## Y dull

**2.** Roedd arolwg hunanlenwi safonedig a strwythuredig ar agor am tua phedair wythnos, rhwng dydd Llun, 2 Medi a dydd Gwener, 27 Hydref 2024. Roedd yr arolwg ar gael i'w lenwi ar-lein, ac ar bapur ar gais.

**3.** Roedd arolwg hunanlenwi'n caniatáu rhywfaint o anhysbysrwydd i'r ymatebwyr, yn wahanol i ddulliau ymgysylltu eraill megis arolygon sy'n cyfweld wyneb yn wyneb. Mae pob dyfyniad sy'n ymddangos yn y papur hwn yn ddienw, gydag unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei dileu.

**4.** Er mwyn llunio'r papur hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o set ddata gyflawn. Gellir priodoli'r holl ddata i ymatebion unigol a gellir dadansoddi ymhellach ar gais.

## Cynulleidfa

**5.** Cynlluniwyd yr arolwg i gael safbwyntiau plant a phobl ifanc sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

**6.** O ystyried yr amser a oedd ar gael i gwblhau'r gwaith ymgysylltu hwn, a'r ffaith bod dechrau tymor yr ysgol yn agos, defnyddiwyd dull â ffocws ar gyfer y gwaith hyrwyddo. Cafodd yr arolwg ei rannu â chysylltiadau presennol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Hyrwyddwyd yr arolwg hefyd gan dîm Addysg y Senedd yn ystod sesiynau a drefnwyd gyda grwpiau ysgol, yn y Senedd ac fel rhan o waith allgymorth y tîm. Bu tîm Cyswllt Cyntaf y Senedd hefyd yn hyrwyddo'r arolwg yn ystod teithiau o'r Senedd a sesiynau a drefnwyd gan grwpiau priodol.

**7.** Hoffem ddiolch i bawb a rannodd eu barn â ni.


## Canfyddiadau

**8.** Roedd yr arolwg yn cynnwys 12 cwestiwn ac fe'i rhannwyd yn dair adran. Cafwyd 35 o ymatebion i'r arolwg. Nid oedd 2 ymatebydd yn gymwys i barhau â'r arolwg ar sail oedran neu am nad oedd yr ymatebydd yn mynd i leoliad cyfrwng Saesneg.

**9.** Ar gyfartaledd, roedd yn cymryd tua 5 munud a 19 eiliad i lenwi'r arolwg. Daeth pob ymateb i law ar-lein.


### Oedran

**10.** Roedd 30 o ymatebwyr (85%) i'r cwestiwn hwn yn 13-16 oed. Roedd 2 ymatebwr (6%) yn 12 oed neu'n iau. Roedd 2 ymatebwr (6%) yn 17-18 oed. Roedd 1 ymatebwr (3%) i'r cwestiwn hwn yn 19 oed neu'n hŷn (un ymatebydd ydoedd, ac nid oedd yn gallu parhau â'r arolwg).



## Wyt ti'n chi'n mynd i leoliad addysg cyfrwng Saesneg?

**11.** Dywedodd 30 o ymatebwyr (88%) i'r cwestiwn hwn eu bod yn mynd i ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg. Dywedodd 1 ymatebydd (3%) ei fod yn mynd i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Dywedodd 2 ymatebydd (6%) eu bod yn mynd i fath arall o addysg cyfrwng Saesneg. Dywedodd 1 ymatebydd (3%) nad oedd yn mynd i leoliad cyfrwng Saesneg ac nad oedd yn gymwys i barhau â'r arolwg.




## Ble wyt ti'n byw?

**12.** Cafwyd ymatebion o 5 ardal awdurdod lleol. Atebodd 2 ymatebwr 'Arall' i'r cwestiwn hwn.


**13.** Dywedodd 21 o ymatebwyr (64%) i'r cwestiwn hwn eu bod yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda 4 (12%) yn nodi eu bod o Abertawe, 2 (6%) yn dweud eu bod o sir y Fflint, 1 (3%) yn nodi eu bod o Rondda Cynon Taf, ac 1 (3%) yn dweud eu bod o Gastell-nedd Port Talbot.

## Dysgu Cymraeg

**14.** Roedd cwestiynau 5 a 6 yn ceisio mynd i'r afael â phrofiad personol yr ymatebwyr o ddysgu Cymraeg yn yr ysgol.

### 15. Pa un o'r opsiynau yma sy'n disgrifio dy farn am ddysgu pwnc yn y Gymraeg?

Dywedodd 14 o'r ymatebwyr (43%) i'r cwestiwn hwn nad oedd ots ganddynt ddysgu pwnc yn Gymraeg. Atebodd 12 (36%) nad oeddent yn ei fwynhau. Roedd 3 (9%) ymatebydd yn hoffi dysgu pwnc yn Gymraeg, ac roedd 3 (9%) yn ei gasáu. Atebodd 1 (3%) ymatebydd ei fod wrth ei fodd yn dysgu pwnc yn Gymraeg.




**Dyweda pam dy fod wedi dewis yr ateb hwn**

**16.** Dywedodd yr ymatebydd a atebodd 'Rydw i wrth fy modd':

"Mae dysgu ieithoedd newydd yn hwyl."

**17.** Dywedodd yr ymatebwyr a atebodd 'Rydw i'n ei hoffi':

"Nid fy hoff beth yw e, ond dwi'n dal yn mwynhau dysgu am iaith fy ngwlad ac yn mwynhau gallu ei siarad hi."

"Wel, mae'n anodd ac nid fy mamiaith yw hi."

**18.** O'r rhai a atebodd 'Does dim gwahaniaeth gen i', roedd rhai yn cael anhawster gyda'r iaith:

"Rwy'n ei hoffi ond mae braidd yn anodd."

"Mae'n anodd i mi."

"Mae'n gallu bod yn anodd o ran sillafu ac ynganu – mae'r Saesneg yn haws."

**19.** Teimlai eraill yn fwy cadarnhaol am ddysgu Cymraeg:

"Mae'n bwysig ei medru, achos mae'n ofynnol mewn rhai swyddi bod pobl yn medru Cymraeg, ond dyw'r gwersi ddim yn sbort yn hollol."

"Dw i'n credu ei bod hi'n dda bod gyda ni ein hiaith ein hunain, ond does dim llawer o bobl yn ei siarad yma."

"Dw i'n meddwl ei fod yn sgil dda cael iaith arall."

"Mae'n hwyl newid iaith bob hyn a hyn."

**20.** Roedd sylwadau eraill gan y rhai a atebodd '**Does dim gwahaniaeth gen i'** yn cynnwys:

"Dw i'n hoffi'r Cymraeg fel pwnc, ond dw i ddim yn siŵr sut fyddwn i'n teimlo pe bai pynciau eraill yn dechrau cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg."

"Dyw'r pynciau rydyn ni'n eu gwneud ddim yn bynciau y byddech chi'n eu defnyddio mewn sgwrs ac maen nhw'n od iawn."

"Dydw i ddim yn siarad Cymraeg ond dydw i ddim yn ei chasáu."

"Mae'n iawn ond fyddwn i ddim yn dewis ei wneud yn fy amser fy hun."

"Dyw'r Gymraeg ddim y pwnc mwyaf cyffrous na'r mwyaf diflas yn hollol."

**21.** O'r rhai a atebodd **'Dw i ddim yn ei fwynhau'**, roedd cael bod yr iaith yn anodd hefyd yn thema:

"Oherwydd byddai'n haws yn Saesneg."

"Dwi'n ei chael hi'n anodd ei deall a'i siarad a'i hysgrifennu."

"Mae'n anoddach ei dysgu na phynciau eraill ac yn fwy dryslyd."

"Oherwydd ei fod yn galed ac yn ddryslyd."

"Mae'n eithaf diflas ac yn anodd gan fy mod i newydd symud ysgol, felly mae'n llawer anoddach yn yr ysgol hon."

"Oherwydd dwi ddim yn dda ynddo."

**22.** Roedd nifer o bobl eraill yn teimlo bod dysgu'r iaith yn ddiflas:

"Mae'n ddiflas."

"Mae'r Gymraeg yn ddiflas gen i ac yn gymhleth."

"Dwi ddim yn mwynhau dysgu Cymraeg oherwydd mae'n ddiflas ac mae'n well gen i siarad Saesneg."

**23.** Roedd un ymatebwr yn teimlo nad oedd angen dysgu Cymraeg:

"Oherwydd dwi'n ei gweld yn ddiangen os mai Saesneg yw'r brif iaith. Pe bydden ni'n ei defnyddio'n amlach, neu pe bai rhai ardaloedd yn ein rhan ni o Gymru yn siarad mwy ohoni, byddwn i'n deall."

**24.** Gwnaeth yr ymatebwyr a atebodd 'Dw i'n ei gasáu' hefyd ddweud bod ei dysgu'n ddiflas a'u bod yn methu deall yr iaith:


"Mae'n ddiflas."

"Dwi ddim yn deall Cymraeg yn dda iawn."


## Sawl awr yr wythnos wyt ti'n cael dy addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol?

**25.** Roedd cwestiynau 7 ac 8 yn ceisio canfod sawl awr yr wythnos y mae'r ymatebwyr yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, a sut y byddent yn teimlo pe baent yn dysgu Cymraeg am 10% o'u hwythnos ysgol pe bai'r Bil yn cael ei roi ar waith.

**26.** Dywedodd 20 (63%) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod yn dysgu Cymraeg 1-2.5 awr yr wythnos. Dywedodd 11 (34%) o'r ymatebwyr eu bod yn dysgu Cymraeg 2.5-6 awr yr wythnos. Dywedodd 1 (3%) ymatebydd ei fod yn dysgu Cymraeg lai nag 1 awr yr wythnos. Nid atebodd neb eu bod yn cael mwy na 6 awr o Gymraeg yr wythnos.




**27.** Pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn teimlo pe baent yn cael eu haddysgu yn Gymraeg am 10% o'r wythnos ysgol (sef rhwng 2 a 2.5 awr yn dibynnu ar oedran), roedd yr ymatebion yn cyfleu amrywiaeth o deimladau, a gynrychiolir gan y cwmwl geiriau hwn.




**28.** Mae dadansoddiad manylach yn dangos bod rhai o'r ymatebion yn gadarnhaol ynghylch cael gwell dealltwriaeth o'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol ac ynghylch cynyddu lefelau hyder. Roedd yr ymatebion mwy cadarnhaol yn cynnwys:

"Hapus, gan y byddai gen i well dealltwriaeth wrth adael yr ysgol ac mewn TGAU."

"Diddorol"

"Byddai'n iawn gen i oherwydd dyw e ddim yn rhy wahanol i sut rwy'n dysgu ar hyn o bryd."

"Ocê"

"Rhyddhad"

"Byddai'n iawn gen i. Byddai gen i fwy o hyder."

"Yn iawn"

"Byddai'n iawn gen i, cyhyd ag y byddai rhywbeth ar y diwedd – er enghraifft, siawns o gael gwell canlyniadau TGAU yn Gymraeg."

"Yn hapus

**29.** Nid oedd rhai ymatebwyr yn gwybod sut y byddent yn teimlo, neu eu bod yn teimlo'n ddifater neu gymysg am y cynnig:

"Byddwn i'n teimlo'n llai hyderus ond yn hapus oherwydd byddwn i'n gallu cael gwers arall mewn pwnc arall."

"Ddim gwahaniaeth gen i"

"Dwi ddim yn gwybod"

"Niwtral"

**30.** Mynegodd nifer o'r ymatebwyr deimladau negyddol tuag at y cynnig, gyda rhai yn cyfeirio eto at gael bod yr iaith yn anodd neu'n ddiflas.

| | |
|---|---|
| "Dryslyd" | "Trist oherwydd byddai'n anodd i mi ei deall." |
| "Wedi digio" | "Yn gas gen i" |
| "Blino" | "Yn flin" |
| "Annheg" | "Wedi diflasu" |
| "Wedi blino'n lân" | "Digalon" |

## Lefelau hyder

**31.** Roedd cwestiwn 9 yn gofyn i'r rhai dan 16 oed pa mor hyderus y byddent i gwblhau nifer o dasgau ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed pe baent yn cael eu haddysgu yn Gymraeg am 10% o'r wythnos ysgol. I'r rhai a oedd eisoes yn 16 oed, gofynnwyd pa mor hyderus eu bod yn cwblhau'r tasgau hyn nawr.

**32.** Wrth ystyried eu gallu o ran *'Deall ymadroddion a geirfa sy'n gysylltiedig â phynciau fel gwybodaeth bersonol sylfaenol, gwybodaeth am dy deulu, siopa, daearyddiaeth leol, cyflogaeth.* -


roedd 18 (55%) o'r ymatebwyr **yn eithaf hyderus**, neu'n teimlo y bydden nhw pe baent yn dysgu Cymraeg am 10% o'u hwythnos ysgol. Atebodd 12 (36%) **ddim yn hyderus iawn**, 2 (6%) **ddim yn hyderus o gwbl** ac atebodd 1 (3%) **ddim yn siŵr**.

**33.** Wrth ystyried eu gallu o ran '*Defnyddio ymadroddion a brawddegau syml yn ysgrifenedig i ddisgrifio pynciau fel dy deulu, pobl eraill, amodau byw, dy gefndir addysgol.*' – dywedodd 6 (19%) o'r ymatebwyr eu bod yn **hyderus iawn**, dywedodd 16 (47%) eu bod **yn eithaf hyderus**, ymateb 8 (25%) ohonynt oedd **ddim yn hyderus iawn**, ac ateb 1 (3%) oedd **ddim yn hyderus o gwbl**. Atebodd 2 (6%) **ddim yn siŵr**.

**34.** Pan ofynnwyd iddynt am eu hyder o ran '*Trafod tasgau syml a chyfnewid gwybodaeth am bynciau a gweithgareddau cyfarwydd.*' – atebodd 2 (6%) eu bod yn **hyderus iawn**, gyda 17 (52%) **yn eithaf hyderus**. Rhoddodd 11 (33%) yr ateb **ddim yn hyderus iawn** a thiciodd 1 (3%) **ddim yn hyderus o gwbl**. Ateb 2 (6%) oedd **ddim yn siŵr**.


**35.** Wrth ystyried eu hyder o ran *'Cael sgyrsiau syml, mynegi sut rwyt ti'n teimlo, beth rwyt ti'n ei wneud neu beth sydd ei angen arnat ti, a rhoi ymatebion priodol i sylwadau fel diolch, ymddiheuriadau neu atebion i gwestiynau*' – dywedodd 3 (9%) eu bod yn **hyderus iawn** ac roedd 11 (34%) yn **eithaf hyderus**. Ticiodd 12 (36%) **ddim yn hyderus iawn**, atebodd 4 (12%) gyda **ddim yn hyderus o gwbl**, ac ateb 3 (9%) oedd **ddim yn siŵr**.

**36.** Yn olaf, pan ofynnwyd iddynt am eu gallu o ran '*Cyfathrebu yn ysgrifenedig y prif bwyntiau am yr hyn sy'n cael ei ddweud mewn sefyllfaoedd pob dydd y galli di eu rhagweld, am yr hyn yr wyt ti ei eisiau neu ei angen*' – dywedodd 2 (6%) eu bod yn **hyderus iawn**, gyda 10 (30%) yn nodi eu bod yn **eithaf hyderus**. Fodd bynnag, rhoddodd 14 (43%) yr ateb **ddim yn hyderus iawn**, gyda 6 (18%) yn rhoi **ddim yn hyderus o gwbl**. Dewisodd 1 (3%) yr opsiwn **ddim yn siŵr**.




## Defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol

**37.** Gofynnodd cwestiwn 10 faint yr oedd ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Dywedodd 27 (82%) o'r ymatebwyr eu bod braidd byth yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Dywedodd 4 (12%) nad oeddent yn defnyddio Cymraeg yn aml iawn, gyda 2 (6%) yn ateb ddim yn gwybod. Atebodd 0% gyda'r opsiynau bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser a gweddol aml.



## Sut gall ysgolion helpu myfyrwyr i gael yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg?

**38.** Gofynnodd cwestiwn 11 am syniadau am sut y gall ysgolion helpu pob disgybl i gael yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol erbyn gadael yr ysgol yn 16 oed.

**39.** Roedd rhai o'r sylwadau'n cynnig defnyddio'r Gymraeg mewn mwy o wersi ac ar draws gwahanol bynciau.

"Defnyddio'r Gymraeg yn amlach mewn gwahanol bynciau."

"Defnyddio'r Gymraeg yn fwy mewn gwahanol ddosbarthiadau."

"Defnyddio'r Gymraeg yn amlach mewn pynciau eraill ond dim gormod."

"Gallai ysgolion gyflwyno mwy o wersi Cymraeg yn ystod yr wythnos neu gallai athrawon annog defnyddio'r Gymraeg yn lle'r Saesneg yn y dosbarth."

"Ychydig bach o Gymraeg ym mhobman."

"Defnyddio Cymraeg achlysurol ym mhob gwers beth bynnag yw'r pwnc – mae hyn yn golygu y bydd angen i'n hathrawon siarad mwy o Gymraeg mewn gwersi hefyd. Dylid cynnwys mwy o Gymraeg mewn gwasanaethau - e.e. emynau Cymraeg."

"Cyflwyno'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn araf deg yn hytrach na gwneud newid enfawr ryw ddydd."

**40.** Soniodd eraill am y pynciau roedden nhw'n eu dysgu drwy'r Gymraeg ac am eu gwneud yn fwy diddorol.

"Gwneud pynciau Cymraeg y mae gennym ddiddordeb ynddyn nhw efallai."

"Defnyddio pynciau y mae'r dosbarth cyfan yn ymddiddori ynddyn nhw."

"Cynnig pynciau sydd o ddiddordeb i ni."

"Gwneud y peth yn fwy o hwyl."

**41.** Awgrymodd rhai ymatebwyr gael mwy o amser ar gyfer gwersi Cymraeg yn ystod yr wythnos neu wersi atgrynhoi ychwanegol i ailedrych ar yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu.

"Mwy o wersi Cymraeg yr wythnos."

"Mwy o wersi Cymraeg."

"Gadael i fyfyrwyr gael sgyrsiau yn Gymraeg yn aml."

"Defnyddio mwy o Gymraeg gydag athrawon sy'n medru'r iaith."

"Mwy o amser ar gyfer gwersi."

"Cynnal gwers atgrynhoi unwaith y mis?"

"Cynnal gwers atgrynhoi neu wneud iddyn nhw sgwrsio â'i gilydd yn Gymraeg."

"Cynnal gwersi atgrynhoi yn achlysurol."

**42.** Soniodd eraill am wneud y Gymraeg sy'n cael ei haddysgu'n fwy defnyddiol i ddysgwyr fel eu bod yn fwy tebygol o'i defnyddio.

"Mwy o glybiau Cymraeg ac yna gwneud posteri ar sut i ofyn am offer a geirfaoedd syml eraill y gallwn eu defnyddio."

"Addysgu pynciau a fyddai'n codi mewn sgyrsiau."

"Dysgu ymadroddion syml iddyn nhw."

**43.** Cyfeiriodd cwpl o sylwadau at y Gymraeg yn cael ei thrafod yng nghyd-destun manteision hirdymor. Fodd bynnag, nid oedd cytundeb ynghylch sut y dylai hyn gael ei ddefnyddio.

"Peidio â nodi mai hon fydd y peth pwysicaf a bod rhaid iddyn nhw ei dysgu er mwyn cael eu cyflogi."

"Dylid gwneud dysgu Cymraeg yn beth mawr. Hynny yw, bydd eich cyfleoedd swyddi ac ati yn well."

## Sylwadau ychwanegol

**44.** Cafodd ymatebwyr yr arolwg gyfle i rannu sylwadau pellach am ddysgu Cymraeg a sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu myfyrwyr. Roedd rhai o'r sylwadau'n awgrymu cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n cael trafferth dysgu'r iaith.

"Hoffwn iddi fod yn fwy hygyrch i bobl sy'n cael trafferth gyda'r Gymraeg, i'w dysgu."

"Dylai fod pethau yn eu lle ar gyfer myfyrwyr sydd ar ei hôl hi yn y Gymraeg er mwyn iddyn nhw allu dal i fyny."

**45.** Cynigiodd rhai ymatebwyr rai awgrymiadau ymarferol ar gyfer dysgu Cymraeg:

"Gadewch i'r myfyrwyr greu posteri am y pynciau sy'n anodd iddyn nhw."

"Gwaith cartref Cymraeg."

"Mwy o sgwrsio."

"Mwy o sgyrsiau a gwaith tîm."

**46.** Awgrymodd un ymatebwr y dylai dysgu Cymraeg fod yn ddewisol.

"Dylid tynnu'r pwysau oddi ar y pwnc a chaniatáu i bobl ddewis a ydyn nhw am ei gymryd ai peidio."

Eitem 3.1

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DB/PO/0281/24

Buffy Williams AS
Gadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

9 Hydref 2024

Annwyl Buffy,

Mynychodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a minnau gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 19 Medi i ddarparu tystiolaeth i lywio ymchwiliad y Pwyllgor ar blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon.

Rydym wedi cytuno i ysgrifennu atoch i ateb yr ymholiadau canlynol:

1. Rhagor o wybodaeth ynghylch a oes unrhyw amrywiadau rhanbarthol mewn perthynas ag atgyfeiriadau camfanteisio troseddol;
2. Ffigurau 2024 ar nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru;
3. Ffigurau 2024 ar y niferoedd sy'n mynd trwy hyfforddiant gwaith cymdeithasol;
4. Pa mor aml y mae byrddau diogelu yn cyfarfod; *[o ran y pwynt hwn, byddai'n ddefnyddiol gwybod pa mor aml y mae'r bwrdd cenedlaethol a'r 6 bwrdd rhanbarthol wedi cyfarfod ]*
5. Canlyniadau trafodaethau gyda Gweinidog Diogelu'r DU ar 23 Hydref 2024 ynghylch argymhellion Adolygiad Jay.

**1. Rhagor o wybodaeth ynghylch a oes unrhyw amrywiadau rhanbarthol mewn perthynas ag atgyfeiriadau camfanteisio troseddol.**

Dros 2022-23 roedd cyfanswm o 28,256 o Gyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol i blant yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Dros yr un cyfnod, roedd 1,471 o adroddiadau am gam-drin tybiedig yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffactor. Mae hyn yn awgrymu bod tua 5% o adroddiadau yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffactor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio rhwng rhanbarthau, gyda'r gyfran yng Nghaerdydd a'r Fro yn 2.3% a 6.4% yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai pryderon ynghylch y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cofnodi ac yn adrodd ar y data hwn. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu'n ddibynadwy ac yn gyson ar draws pob rhanbarth.

Mae'r Swyddfa Gartref yn cofnodi data a atgyfeiriadau i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern. Mae hyn yn cynnwys darpar ddioddefwyr camfanteisio'n droseddol ar blant. Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud â chamfanteisio'n droseddol ar blant yn y siroedd wedi'u cadw yng Nghymru yn 2023:

| Siroedd wedi'u cadw | Atgyfeirio plant i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol lle adroddwyd am gamfanteisio troseddol |
|---|---|
| De Morgannwg | 75 |
| Morgannwg Ganol | 47 |
| Gwent | 47 |
| Clwyd | 40 |
| Gorllewin Morgannwg | 28 |
| Dyfed | 17 |
| Gwynedd | 13. |
| Powys | 12. |




Sylwch ar yr ystadegau hyn, gan gynnwys atgyfeiriadau lle adroddwyd am fathau ychwanegol o gamfanteisio hefyd. Ni ddylid cyfuno'r ystadegau hyn gan y gall pobl adrodd am gamfanteisio mewn sawl ardal.

Mae camfanteisio troseddol yng Nghymru yn gysylltiedig â dosbarthu cyffuriau anghyfreithlon drwy gangiau troseddol lleol a rhwydweithiau Llinellau Cyffuriau. Mae camfanteisio troseddol yn gysylltiedig â cogio a mathau eraill o droseddau. Mae'r nifer fwyaf o ddioddefwyr posibl a nodwyd yn gwladolion Prydeinig gwrywaidd rhwng 13 ac 17 oed. Ymhlith y cenhedloedd eraill a nodwyd y mae gwladolion Albaniaidd.

2. **Ffigurau 2024 ar nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru**

   Ar 30 Medi 2024 mae 6,774 o weithwyr cymdeithasol wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn cymharu â 6,736 a gofrestrwyd ym mis Medi 2023.

3. **Ffigurau 2024 ar y niferoedd sy'n mynd trwy hyfforddiant gwaith cymdeithasol**

   Ym mis Medi 2024 mae 655 o fyfyrwyr wedi cofrestru gyda hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol Bydd y rhain yn cynnwys myfyrwyr traddodiadol, y rhai sy'n manteisio ar fwrsariaeth gweithwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r cynllun Tyfu Eich Awdurdod Lleol eich hun, yn ogystal â chyrsiau prifysgol agored.

4. **Pa mor aml y mae byrddau diogelu yn cyfarfod; *[o ran y pwynt hwn, byddai'n ddefnyddiol gwybod pa mor aml y mae'r bwrdd cenedlaethol a'r 6 bwrdd rhanbarthol wedi cyfarfod]***

Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cyfarfod bob chwarter er bod ganddynt is-strwythurau sylweddol sy'n cwrdd rhwng y cyfarfodydd hynny i drafod materion penodol e.e. hyfforddiant a datblygiad, protocolau a gweithdrefnau a sicrhau ansawdd a pherfformiad. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cyfarfod bob mis. Mae aelodau hefyd yn mynychu cyfarfodydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn eu rôl o gefnogi datblygiad.
Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac aelodau o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol lle mae'r Cadeiryddion a'r Aelodau yn rhoi diweddariadau, ac rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

5. **Canlyniadau trafodaethau gyda Gweinidog Diogelu'r DU ar 23 Hydref 2024 ynghylch argymhellion Adolygiad Jay.**

Disgwylir i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal ar 23 Hydref ac felly byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd wedi digwydd.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

11 Hydref 2024

Annwyl Buffy,

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Diolch am eich llythyr ar 20 Medi, ar ôl i mi fod yn bresennol yn eich Pwyllgor y diwrnod blaenorol yn rhoi tystiolaeth mewn perthynas â Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Rwy'n gobeithio bod y Pwyllgor wedi cael y sesiwn yn ddefnyddiol.

Mae eich llythyr yn trafod nifer o faterion y byddaf yn ymdrin â hwy yn eu tro. Yn gyntaf, y materion y cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor yn eu cylch.

Amserlen ddangosol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r amserlen ddangosol bresennol ar gyfer gweithredu'r Bil, ac mae'n nodi ym mha flynyddoedd ariannol ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol y byddem yn disgwyl i gostau godi o ganlyniad i weithredu darpariaethau'r Bil. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor pe bawn yn amlygu'r dyddiadau gweithredu allweddol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gan hynny, mae'r cerrig milltir lefel uchel presennol o ran gweithredu'r Bil wedi eu darparu ochr yn ochr â'r llythyr hwn yn nogfen 1 ar ffurf tabl ac ar ffurf weledol yn nogfen 2. Wrth rannu'r dogfennau hyn, hoffwn bwysleisio i'r Pwyllgor mai'r tybiaethau cynllunio presennol a gynrychiolir gan y dyddiadau hyn. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf mewn perthynas â'r trefniadau gweithredu manwl. Nid yw'r amserlenni dangosol yn nodi'r holl waith sydd angen ei wneud i weithredu'r Bil e.e. bydd angen paratoi eitemau ychwanegol o is-ddeddfwriaeth megis Gorchmynion Cychwyn.

Gofynion ymgynghori o fewn y Bil

Mae rhai gofynion ymgynghori penodol yn y Bil:

a) Y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg: Adran 7(2) – rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y Cod ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.
b) Y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg: Adran 26 – rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau sydd wedi eu rhestru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

wrth baratoi/diwygio'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn nhw.

c) Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg: Adran 28(4)(b) – rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r personau sydd wedi eu rhestru wrth baratoi/diwygio eu cynllun. Caiff Gweinidogion Cymru bennu personau eraill mewn Rheoliadau.
d) Cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion: Adran 14(2)(b) – rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori â'r personau sydd wedi eu rhestru wrth baratoi eu cynllun cyflawni. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yr ysgol, rhieni'r disgyblion a staff. Caiff Gweinidogion Cymru bennu personau eraill mewn Rheoliadau.

Mae adran 47 yn diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Bydd hyn yn golygu nad yw newid cyfrwng iaith mewn ysgol a gynhelir yn newid rheoleiddiedig at ddibenion y ddeddf honno. O ganlyniad, ni fydd y broses sydd ynghlwm wrth newid rheoleiddiedig yn berthnasol. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu disodli gan y gofynion ymgynghori a restrir uchod, ynghyd â'r gofyniad bod cynllun cyflawni yn nodi cynigion y corff llywodraethu i gynnal swm yr addysg Gymraeg, a chynyddu'r swm pan fo hynny'n rhesymol ymarferol (adran 14(1)(e)). Rhaid i gorff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i roi'r cynigion hynny ar waith (adran 15(9)). Ni chaiff ysgol newid o gategori "Dwy Iaith" i gategori "Prif Iaith: Saesneg, rhannol Gymraeg", nac o gategori "Prif iaith: Cymraeg" i gategori "Dwy Iaith" neu'r categori "Prif Iaith: Saesneg, rhannol Gymraeg" (adran 17).

O ran y sefyllfa bresennol o ran newidiadau rheoleiddiedig, mae adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn nodi bod yn rhaid ymgynghori ynghylch cynigion trefniadaeth ysgolion yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod hwnnw'n rhestru'r personau y mae'n rhaid anfon copi o'r ddogfen ymgynghori atynt. Byddai'r Bil yn dileu'r gofyniad i drin newid cyfrwng iaith fel newid rheoleiddiedig, ac felly byddai'r trefniadau newydd yn golygu y byddai cyfleoedd i ymgynghori â chymuned yr ysgol ac yn ehangach wrth baratoi'r Cynllun Strategol lleol Cymraeg mewn Addysg, ac wrth i gyrff llywodraethu baratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ar lefel yr ysgol.

<u>Ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn</u>

Wrth ddatblygu'r Bil mae swyddogion wedi ystyried gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Cyhoeddwyd y dadansoddiad hwn pan gyflwynwyd y Bil ar 15 Gorffennaf 2024 ac mae i'w weld ar dudalennau 36 – 38 o'r Asesiad Effaith Integredig, fel y mae'n ymddangos ar wefan Llywodraeth Cymru. Ers hynny mae fy swyddogion wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at yr Asesiad Effaith Integredig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y cynigion yn herio unrhyw erthyglau.

In developing the Bill officials have considered the requirements of the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC). This analysis was published upon introduction of the Bill on 15 July 2024 and can be found on pages 36 – 38 of the Integrated Impact Assessment, as it appears on the Welsh Government's website. My officials have since drawn the Committee's attention to the IIA. The Welsh Government does not believe that the proposals will challenge any articles.

Yn ail, mae Atodiad 1 eich llythyr ar 20 Medi yn cynnwys nifer o gwestiynau pellach. Mae fy ymateb i bob un o'r cwestiynau hynny ynghlwm yn Atodiad 1.

Yn olaf, rwyf wedi achub ar y cyfle wrth ysgrifennu atoch i roi eglurder am ddau fater arall a godwyd yn sesiwn y Pwyllgor ar 19 Medi.

Ysgolion trosiannol

Mae paragraff 295 o'r trawsgrifiad yn nodi:

> *Mae yna gyfeiriad at ysgolion trosiannol yn y Bil. Mae yna ddau gam i fynd o gategori 1 i gategori 2, wedyn mae yna gyfnod trosiannol yn fanna, ac wedyn i fynd o gategori 2 i gategori 3. Does yna ddim sôn, hyd y gwelaf i, fod yna amserlen ar gyfer parhau yn drosiannol. Mae'n amlwg y byddem ni i gyd eisiau gweld ysgolion yn symud ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach. Yn eich meddwl chi, a oes unrhyw amserlen fras o ran pa mor hir maen nhw'n gallu bod yn drosiannol?*

Hoffwn nodi nad oes cyfeiriad yn y Bil at ysgolion trosiannol. Mae'r term 'ysgolion trosiannol' yn deillio o'r canllawiau anstatudol ar gategoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith a gyhoeddwyd yn 2021. Yn y canllawiau hynny, crëwyd is-gategorïau trosiannol fel categorïau pontio gan helpu i annog cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn y canllawiau hynny, dywedwyd na ddylai ysgol fod o fewn is-gategori trosiannol yn hwy na 10 mlynedd ar y mwyaf.

Fodd bynnag, dim ond tri chategori statudol yr ydym yn eu cynnig yn y Bil: Prif iaith: Cymraeg; Dwy iaith; Prif iaith: Saesneg, rhannol Gymraeg.

Bydd ysgolion yn gallu nodi eu bod mewn cyfnod trosiannol o fewn eu cynllun cyflawni'r Gymraeg. Mae adran 14(1)(g) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu nodi ei gynigion o ran sut y bydd yn paratoi ar gyfer newid categori iaith yr ysgol os yw'n bwriadu gwneud hynny. Bydd y cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg mewn grym am gyfnodau o dair blynedd, a byddant yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth awdurdod lleol. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i gael trosolwg cadarn o ddarpariaeth Gymraeg ei ysgolion, a chael dylanwad digonol yn ei rôl fel ymgynghorai i'r cynllun ac yn ei rôl gymeradwyo derfynol. Mae hyn yn angenrheidiol gan ei fod yn rhoi'r ysgogiadau sydd eu hangen ar yr awdurdod lleol i fodloni ei dargedau CSCA.

Gofynion ar ysgolion arbennig, unedau arbenigol mewn ysgolion, ac o ran disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

O ran ysgolion arbennig, mae adran 20 yn darparu bod yn rhaid iddynt gael cynllun cyflawni. Bydd hyn yn ofyniad statudol. Rhaid i'w cynllun ddatgan:

a) y swm o addysg Gymraeg a ddarperir gan yr ysgol;
b) cynigion y corff llywodraethu ar sut y bydd —
   (i) yn hybu ethos a diwylliant Cymraeg o fewn yr ysgol;
   (ii) yn hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol.

Mae cynnwys cynllun cyflawni ysgol arbennig felly yn wahanol i'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cynllun cyflawni o dan adran 14. Mae hyn er mwyn cydnabod bod amgylchiadau ysgolion arbennig yn wahanol i ysgolion prif ffrwd, a'u bod yn wynebu pwysau ychwanegol o ganlyniad. Teimlwyd bod y gofyniad am gynllun cyflawni tebycach i'r hyn a ddisgrifir uchod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cydnabod y rôl y gall ysgolion arbennig ei chwarae wrth greu siaradwyr Cymraeg ac unrhyw anghenion dwys y maent hefyd yn ymdrin â hwy.

Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth bellach ar gyfer cynlluniau cyflawni ysgolion arbennig – gweler adran 20(2).

O ran categorïau iaith, nid oes gofyniad statudol i ysgol arbennig gael categori dynodedig. Mae hyn oherwydd bod dynodi categori yn arwain at ddyletswydd i ddarparu yn unol â gofynion y categori hwnnw, a theimlwyd y gallai fod yn afresymol disgwyl i ddyletswydd o'r fath gael ei chyflawni o dan amgylchiadau unigryw ysgolion arbennig. Fodd bynnag, gall ysgol arbennig – os yw'n dymuno gwneud hynny – ddynodi ei hun o fewn categori. Mae adran 20(3) yn ymdrin â hyn. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â dynodiad gwirfoddol, gan gynnwys cymhwyso Rhan 3 gydag addasiadau. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, cymhwyso’r nodau dysgu Cymraeg gydag addasiadau fel bod gan ysgolion arbennig nodau dysgu gwahanol os ydynt wedi dynodi eu hunain mewn categori yn wirfoddol.

Bydd gofyn i ysgolion prif ffrwd gydag unedau arbenigol ddynodi categori ar gyfer yr ysgol, a bydd yn rhaid iddynt baratoi cynllun cyflawni yn unol ag adrannau 9 i 19.

O ran y gofyniad ar yr ysgol sydd ag uned arbenigol i sicrhau ei bod yn darparu addysg Gymraeg yn unol â’r ystod a bennir gan ei chategori iaith, mae’r gofyniad hwn yn berthnasol dros flwyddyn ysgol. Nid yw'r gofyniad i ddarparu isafswm o 10%, er enghraifft, yn golygu bod yn rhaid i bob disgybl unigol o fewn yr ysgol dderbyn 10%. Mae cyfeirio at yr addysg a ddarperir dros flwyddyn ysgol yn caniatáu hyblygrwydd i ysgol ddarparu llai na 10% mewn rhai amgylchiadau lle bo angen, ac i ddarparu mwy na 10% mewn amgylchiadau eraill. Mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol yng nghyd-destun unedau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

O ran darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ystyried a ddylid darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ar gyfer y plentyn neu’r person ifanc, ac os penderfynir y dylid darparu math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg, rhaid nodi hynny yng nghynllun datblygu unigol y plentyn neu berson ifanc. Mae dyletswydd i ddarparu’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol.

Yn ogystal, mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnwys datganiad yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy’n nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio canfyddiadau ei adolygiadau o dan adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth Gymraeg ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio’r gweithlu o fewn y sector anghenion dysgu ychwanegol.

Hoffwn ddiolch i’r Pwyllgor am eu diddordeb yn y Bil, ac rwy’n edrych ymlaen at ddychwelyd gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth bellach ar 24 Hydref.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

**Atodiad 1: Cwestiynau**

**Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg (Rhan 1)**

1. **Pa brofion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i sicrhau bod y fframwaith a'r broses hunanasesu newydd arfaethedig yn darparu dull effeithiol a chadarn o asesu gallu yn y Gymraeg?**

   Bydd y canllawiau ar hunanasesu y cyfeirir atynt yn adran 3(3) yn cael eu datblygu a'u profi unwaith y cyhoeddir y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae'r egwyddor o gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg ar sail hunanasesiad yn bwysig ac mae'n cael ei diogelu yn y Bil (adran 3(2)).

   Nid yw'r cysyniad o hunanasesu sgiliau Cymraeg yn un newydd. Mae unigolion eisoes yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y Cyfrifiad a'r Arolwg Defnydd Iaith a ddefnyddiwyd ar gyfer y dangosydd 'defnydd' yn strategaeth Cymraeg 2050. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswydd statudol i gofnodi sgiliau Cymraeg eu gweithwyr (o dan safonau'r Gymraeg) drwy ofyn i weithwyr hunanasesu. Mae llawer wedi mabwysiadu fframweithiau sy'n seiliedig ar lefelau Cymdeithas Profwyr Ieithoedd Ewrop (ALTE – fframwaith sydd wedi'i angori i'r lefelau CEFR cyntaf a ddatblygwyd i gysylltu arholiadau ar gyfer gwahanol ieithoedd Ewropeaidd â'i gilydd). Mae Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (SWAC) gan Lywodraeth Cymru eisoes yn defnyddio fframwaith cymhwysedd yn y Gymraeg sy'n cyd-fynd â lefelau'r CEFR i alluogi ymarferwyr addysg i hunanasesu ac adrodd ar eu sgiliau.

   Mae tystiolaeth o anghysondebau rhwng gwahanol ffynonellau data ynghylch sut mae pobl yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd, sy'n awgrymu bod rhai unigolion yn tan-adrodd ac eraill yn gor-gofnodi eu lefelau sgiliau. Pan gyhoeddodd y Prif Ystadegydd y data cyntaf am y Gymraeg o Gyfrifiad 2022, nododd y gall asesiad person o ba mor dda y mae'n siarad iaith fod yn oddrychol. I rai pobl, mae'r gallu i ddweud ychydig eiriau yn Gymraeg yn ddigon iddynt ddweud eu bod yn siarad yr iaith. I eraill, er eu bod yn ei siarad yr iaith yn rheolaidd, efallai y byddant yn dweud na allant ei siarad os ydynt yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad iaith arall. Mae'r sylwadau'n amlygu'r angen i gael naratif mwy soffistigedig ynghylch sut mae unigolion yn hunanasesu eu hyfedredd yn y Gymraeg. Bydd y darpariaethau yn adran 3 ar baratoi canllawiau ar hunanasesu, ochr yn ochr â'r ddyletswydd yn adran 3(5), yn codi ymwybyddiaeth poblogaeth Cymru dros amser o sut i hunanasesu.

   Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i bennu unrhyw ddull arall, ac eithrio hunanasesu neu asesu rhiant neu ofalwr plentyn, i benderfynu a yw plant o dan 16 oed yn siaradwyr Cymraeg at ddibenion adran 1 a 2 o'r Bil.

   Defnyddir y CEFR yn eang ledled Ewrop a thu hwnt. Wrth baratoi'r Cod, bydd gwaith yn cael ei wneud i dynnu ar brofiadau gwledydd ac ieithoedd eraill o ran cymhwyso hunanasesu yn effeithiol. Yn ei dro, bydd hyn yn llywio'r canllawiau a baratoir o dan Ran 1.

**Disgrifio gallu yn y Gymraeg (Rhan 2)**

2. **A allech chi ddiffinio beth yw siaradwr Cymraeg o dan y fframwaith newydd er mwyn cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg? Hynny yw, beth yw'r trothwy, ac a oes angen cynnwys hyn yn y Bil?**

   Fel y nodais yn y sesiwn dystiolaeth ar 19 Medi, os yw'r Gymraeg yn perthyn i bawb, yna mae'n rhaid inni ddibynnu ar asesiad yr unigolyn ei hun o'r graddau y mae'n credu ei fod yn ddefnyddiwr Cymraeg. Mae'r egwyddor honno wrth graidd y Bil hwn.

Wedi dweud hynny, rwy’n ymwybodol bod yn rhaid i’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg fod yn ystyrlon, a bod gan bobl ddigon o sgiliau a hyder i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg o ddydd i ddydd. At ddibenion cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg wrth i ni fesur cynnydd tuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, byddwn yn ystyried canlyniadau’r cyfrifiad ochr yn ochr ag unrhyw ddata perthnasol arall y gallwn eu nodi drwy reoliadau.

3. **Nid yw'n ymddangos bod y disgrifiadau'n darparu ar gyfer pawb, er enghraifft y rhai nad oes ganddynt allu yn y Gymraeg o gwbl. A ystyriwyd y rhai nad ydynt ar raddfa’r CEFR neu y gellid ystyried eu bod yn uwch nag C2 neu’n is nag A1 yn ôl y CEFR?**

Mae'r CEFR yn cydnabod bod lefelau’r Raddfa Fyd-eang A1-C2, a atgynhyrchwyd yn Atodlen 1 i'r Bil, yn symleiddiad angenrheidiol ar lefelau hyfedredd iaith.

Mae’r CEFR yn nodi ei bod yn debyg mai A1 yw’r “lefel” isaf o hyfedredd iaith cynhyrchiol y gellir ei nodi, ond mae hefyd yn cydnabod nad A1 yw’r lefel isaf o hyfedredd y mae modd ei ddychmygu mewn iaith ychwanegol. Gan hynny, pan gafodd y CEFR ei ddiweddaru yn 2020, ychwanegwyd disgrifyddion lefel cyn-A1 at y fframwaith. Ar lefel cyn-A1 gall unigolyn ddefnyddio geiriau unigol ac ymadroddion sylfaenol er mwyn rhoi gwybodaeth syml amdanynt eu hunain. Byddai hyn yn cynnwys rhywun ar ddechrau eu taith i ddysgu iaith.

Cyfeirir at lefel cyn-A1 yn y CEFR fel is-lefel ac nid yw'n berthnasol i bob un o raddfeydd disgrifiadol y CEFR. Nid yw wedi’i gynnwys yng Ngraddfa Fyd-eang y CEFR, ac felly nid yw’n ymddangos yn y Tabl a atgynhyrchwyd yn Atodlen 1 i’r Bil.

Mae’r CEFR hefyd yn cydnabod bod lefelau uwchlaw C2 – er nad ydynt wedi’u nodi’n benodol yn y fframwaith – ac mae’r lefelau hyn yn disgrifio meistrolaeth uwch ar iaith sydd wedi ei feithrin gan unigolion sy’n gweithio mewn proffesiynau sy’n ymdrochi mewn iaith e.e. cyfieithwyr llenyddol, cyfieithwyr ar y pryd.

Mae'r CEFR yn nodi na fwriedir i C2 awgrymu'r lefel uchaf o hyfedredd ieithyddol y gellir ei ddychmygu. Mae'r fframwaith yn cydnabod bod cyfieithwyr ar y pryd mewn sefydliadau Ewropeaidd a chyfieithwyr proffesiynol yn gweithredu ar lefel ymhell uwchlaw C2. Bwriad y CEFR yw nodweddu gallu'r rhai sydd wedi bod yn ddysgwyr hynod lwyddiannus.

Mae’r CEFR hefyd yn cynnwys disgrifyddion lefel ‘plws’, (fel B1.1 a B1.2), a ddatblygwyd i gynrychioli cymhwysedd cryf iawn ar lefel nad yw eto’n cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer y lefel nesaf.

Mae’r darpariaethau yn adran 6 o’r Bil yn caniatáu i’r ‘Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg’ gynnwys unrhyw beth arall sy’n ymwneud â disgrifio gallu yn y Gymraeg, gan gynnwys disgrifyddion lefel cyn-A1 a lefelau ‘plws’ y CEFR. Wrth ddatblygu’r Cod o dan adran 6, ystyrir i ba raddau y gellir defnyddio ‘dewislen’ gyfan y CEFR o raddfeydd i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.

Mae’n bwysig bod y dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn hwyluso pobl i allu hunanasesu eu hyfedredd yn yr iaith, ni waeth faint o Gymraeg y maent yn ei siarad. Bydd hyn yn caniatáu iddynt weld beth fydd cam nesaf eu taith o ran dysgu Cymraeg. Bydd yn dangos bod unrhyw sgiliau Cymraeg yn werthfawr ac yn caniatáu inni ddathlu taith iaith pawb.

4. **A allech egluro sylwadau a wnaed yn ystod y sesiwn a oedd yn awgrymu eich bod o’r farn bod bron pawb yn siarad rhywfaint o Gymraeg? A oeddech yn dweud bod**

**hyn yn golygu felly y byddai bron pawb ar o leiaf lefel A1 ar y CEFR?**

Mae'r Gymraeg mor amlwg yn ein bywydau bob dydd ac yn cael ei defnyddio'n gyson mewn cymaint o beuoedd. O'r herwydd credaf y bydd gan bawb sy'n byw yng Nghymru wybodaeth am rai geiriau cyffredin megis 'Diolch', 'Bore da' a llawer o enwau ac enwau lleoedd. Yr wyf hefyd yn seilio fy nghred ar y ffaith bod y Gymraeg wedi bod yn elfen orfodol o'r cwricwlwm yng Nghymru ers 1990. Er nad yw wedi'i chynnwys yng Ngraddfa Fyd-eang y CEFR a atgynhyrchwyd yn Atodlen 1 i'r Bil, darperir ar gyfer y lefel sylfaenol hon o allu yn y CEFR ar ffurf lefel cyn-A1. Mae disgrifyddion cyn-A1 wedi bod ar gael yn y fframwaith ers iddo gael ei ddiweddaru yn 2020. Ystyrir i ba raddau y defnyddir 'dewislen' graddfeydd cyfan y CEFR i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg wrth ddatblygu'r Cod. Mae adran 6 o'r Bil yn galluogi'r lefel cyn-A1 i gael ei chynnwys yn y Cod i ddisgrifio'r lefel sylfaenol hon o sgiliau Cymraeg.

5. **A allech hefyd egluro sylwadau a wnaed yn ystod y sesiwn a oedd yn awgrymu bod A1 yn cyfateb i lefel TGAU?**

Rhan bwysig o gyflawni nodau'r Bil fydd datblygu ffyrdd mwy ystyrlon o asesu gallu disgyblion ysgol yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol, mae diffyg data am hyfedredd yn y Gymraeg a gyflawnir gan ddysgwyr y dyfarnwyd graddau A*-F iddynt mewn TGAU Cymraeg iaith a TGAU Cymraeg ail iaith. Nododd Cyfrifiad 2021 nad oedd 38,800 o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd llawer iawn felly nad oeddent yn siarad Cymraeg er bod y Gymraeg yn elfen orfodol o gwricwlwm eu hysgol. Mae astudiaeth ar raddfa fach, a gafodd ei chynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i bennu ei hanghenion ar gyfer darpariaeth cyrsiau ôl-16, yn awgrymu bod hyfedredd grŵp o gyfranogwyr 16-17 oed a oedd wedi sefyll y cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith y flwyddyn academaidd flaenorol yn amrywio'n fras rhwng gwaelod A1 a gwaelod B1 y CEFR, rhwng dechrau Mynediad a Chanolradd yn ôl lefelau Dysgu Cymraeg i oedolion. Roedd hyfedredd rhyngweithio llafar yn gyffredinol yn is.

6. **Mae'r CEFR wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer dysgu ieithoedd tramor/ail iaith. Pa mor briodol yw cymhwyso hyn i gyd-destun dysgu Cymraeg, a pha ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu disgrifyddion yn benodol ar gyfer y Gymraeg?**

Er bod y CEFR wedi'i gynllunio'n wreiddiol gydag ail iaith/ieithoedd tramor mewn golwg, mae wedi'i fabwysiadu'n fwy cyffredinol ers hynny. Trwy ein haelodaeth o'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) rydym wedi dysgu oddi wrth gydweithwyr sy'n gweithio ym maes polisi iaith a chynllunio ar gyfer ieithoedd cyfansoddiadol, rhanbarthol a gwladwriaethau bach ledled Ewrop fod fframwaith y CEFR yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau i ddisgrifio gallu ieithyddol yn yr iaith gyntaf, yr ail iaith ac ieithoedd eraill.

Er enghraifft, yn neddf addysg newydd gwlad y Basg yn 2023 defnyddir fframwaith y CEFR i ddisgrifio gallu mewn cyd-destunau iaith gyntaf ac iaith ychwanegol, gan gyflwyno dyletswydd ar ddysgwyr i gyrraedd isafswm lefel CEFR B1 yn y ddwy iaith swyddogol erbyn diwedd addysg gynradd/B2 erbyn diwedd addysg uwchradd. Yn yr un modd, yn y Ffindir defnyddir y CEFR i osod y meini prawf ar gyfer mamiaith a'r ail iaith swyddogol ac ieithoedd eraill. Felly, credwn ei bod yn briodol defnyddio'r CEFR at ein dibenion ni ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru.

Y CEFR yw un o offerynnau polisi mwyaf adnabyddus a mwyaf poblogaidd Cyngor Ewrop. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu fframwaith ar gyfer pob iaith Ewropeaidd. Oherwydd ei fod yn iaith-niwtral, gellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw iaith yn y byd. Mae manteision i alinio ein fframwaith ni ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg gyda'r CEFR – mewn gwirionedd, y cwestiwn ddylai fod pam nad ydym yn ei ddefnyddio?

Rydym yn datblygu disgrifyddion yn benodol ar gyfer y Gymraeg. Offeryn cyfeirio yn unig yw'r CEFR a ddefnyddir i hwyluso'r broses hon. Bydd y Cod yn cynnwys disgrifyddion a ddatblygir yn benodol ar gyfer y Gymraeg. Wrth i'r disgrifyddion gael eu datblygu gellir eu teilwra i roi sylw i unrhyw ystyriaethau unigryw sydd eu hangen mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r CEFR eisoes yn cael ei ddefnyddio fel offeryn cyfeirio i ddarparu disgrifyddion yn benodol ar gyfer y Gymraeg, i lywio cwricwlwm y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chymwysterau Cymraeg i oedolion CBAC.

7. **A ydych chi wedi ceisio sicrwydd gan Gyngor Ewrop nad yw'r fframwaith yn debygol o newid?**

   Cyhoeddwyd Graddfa Fyd-eang chwe lefel A1-C2 CEFR, a atgynhyrchwyd yn Atodlen 1 i'r Bil, am y tro cyntaf yn Fframwaith y CEFR yn 2001, a chafodd ei ddiweddaru yn 2020. Ychydig iawn o newidiadau a wnaed iddo bryd hynny, ac roed unrhyw newidiadau yn bennaf er mwyn sicrhau bod yr iaith yn niwtral o ran rhywedd a dileu cyfeiriadau at 'siaradwyr brodorol'. Credwn ei bod yn annhebygol y bydd Cyngor Ewrop yn newid y raddfa hyfedredd chwe lefel am flynyddoedd lawer i ddod, os o gwbl. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r Tabl yn Atodlen 1 drwy reoliadau mewn ymateb i newid a wneir i'r CEFR (adrannau 5(2) a 5(3) o'r Bil). Ni allwn feddwl am unrhyw sefyllfa, ac eithrio ymateb i unrhyw newidiadau i fframwaith y CEFR, lle byddai'n ddymunol cael y gallu i ddiwygio'r Tabl.

   Mae adran 6 o'r Bil eisoes yn galluogi'r 'Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg' (a fydd yn esbonio'r lefelau'n fanylach) i gael ei ddiwygio ar unrhyw adeg ac i gynnwys unrhyw ran o fframwaith y CEFR. Gall y Cod hefyd gynnwys unrhyw beth arall sy'n ymwneud â disgrifio gallu yn y Gymraeg y tu hwnt i fframwaith y CEFR os oes angen.

**Addysg Gymraeg (Rhan 3)**

8. **A allwch chi gadarnhau a oes gan Weinidogion Cymru ddyletswydd, neu bŵer, i wneud rheoliadau sy'n pennu dyddiad ar gyfer uwchraddio Nodau Dysgu Cymraeg ysgolion "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" ac ysgolion "Dwy Iaith"? Pa ffactorau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried wrth wneud hynny ac, os yw'n bŵer yn hytrach na dyletswydd, a oes risg na fydd y nodau hynny byth yn cael eu huwchraddio a'u gwneud yn fwy uchelgeisiol?**

   Mae Adran 11 yn gosod y nodau dysgu Cymraeg a'r nodau dysgu arfaethedig a gaiff eu huwchraddio. Mae'r nodau dysgu i gael eu huwchraddio gan reoliadau. Y bwriad yw i'r nodau dysgu gael eu huwchraddio pan fydd newid systemig ar droed h.y. pan fydd ein targedau gweithlu'n cael eu cyrraedd a phan fydd arfer effeithiol yn dangos tystiolaeth o gynnydd tuag at gyrraedd y nod dysgu gwreiddiol, a rhagori arno.

   Gan fod newidynnau a phethau anhysbys yn ffactorau, penderfynwyd ei bod yn fwy priodol creu pŵer i'w arfer pan fo'n addas, yn hytrach na dyletswydd â dyddiad amhenodol. Ymhellach, o dan adran 13(5), mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benderfynu bob 5 mlynedd a ddylid arfer y pŵer i wneud rheoliadau i gynyddu'r isafswm o 10%, a gallai hyn hefyd effeithio ar ba bryd y caiff y nodau eu huwchraddio.

   Wedi dweud hyn, dylid amlygu bod adran 11(3) yn nodi mai'r nod dysgu ar gyfer ysgolion 'Prif iaith: Saesneg, rhannol Gymraeg' yw bod disgyblion yn ddefnyddwyr Cymraeg sylfaenol (h.y. A1-A2), o leiaf, erbyn diwedd oedran ysgol gorfodol, hyd at ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Felly, y nod yw y byddant yn ddefnyddwyr sylfaenol, o leiaf, hyd at ddyddiad penodol pan fydd y nod yn cael ei

uwchraddio i ddefnyddiwr annibynnol. Bydd y rheoliadau hyn yn eu lle erbyn i'r categorïau statudol ddod i rym, gan roi sicrwydd y bydd y nod dysgu yn cael ei uwchraddio erbyn dyddiad penodol.

9. **I ba raddau y mae'r gofyniad i'r awdurdod lleol gymeradwyo cynllun cyflawni addysg Gymraeg ysgolion yn gyfan gwbl yn unol ag ethos a darpariaethau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, sy'n pwysleisio ymreolaeth ysgolion? Er enghraifft, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol nac unrhyw un arall gymeradwyo cwricwlwm ysgolion.**

   Gan y bydd yr awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i dargedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Cenedlaethol, mae'n hollbwysig bod ganddynt ysgogiadau digonol i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r targedau hynny.

   Wrth ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol:
   o cymeradwyo cynlluniau cyflawni
   o eu cymeradwyo gydag addasiadau, neu
   o eu gwrthod gyda chyfarwyddyd i ailystyried,

   mae hyn yn golygu y bydd gan yr Awdurdod Lleol ddylanwad digonol o ran y camau a gynigir gan ysgolion i sicrhau cynnydd.

   Gan ei bod yn ofynnol i gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg gynnwys categori iaith yr ysgol, mae'n briodol bod gan yr awdurdod lleol rôl yn cymeradwyo'r cynlluniau, gan y bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod categorïau iaith yn cael eu cymhwyso'n gywir ac yn gyson ar draws eu hardal.

   Yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil, gwnaethom ymgynghori ar roi rôl gymeradwyo i awdurdodau lleol ar gyfer categorïau ysgolion, a chroesawyd hyn gan fwyafrif yr ymatebwyr.

   Pe na bai gan awdurdodau lleol rôl gymeradwyo, byddai ganddynt lai o ddylanwad yn eu hymdrechion i ysgogi cynnydd ar draws ysgolion yn eu hardal.

**Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg (Rhan 4)**

10. **Mewn rheoliadau yn 2019, yn dilyn argymhelliad gan yr Adolygiad Cyflym o CSCAau, estynnodd Llywodraeth Cymru amserlen CSCAau o 3 blynedd i 10 mlynedd er mwyn hwyluso cynllunio tymor hwy. Mae'r Bil yn lleihau'r amserlen hon i 5 mlynedd, er y bydd angen i'r cynlluniau nodi camau i'w cymryd dros gyfnod o 10 mlynedd. Sut mae'r llywodraeth wedi pwyso a mesur yr angen i CSCAau fod yn ddigon byr i sicrhau atebolrwydd digonol, wrth roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynllunio dros gyfnod digon hir?**

    Rydym yn awyddus bod awdurdodau lleol yn parhau i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gyda gweledigaeth 10 mlynedd, ond gyda chylch gweithredu 5 mlynedd i gyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol. Yn yr un modd, cynigir gweledigaeth 10 mlynedd a chyfnod cynllunio 5 mlynedd tebyg ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol.

    Gan fod awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn creu cynlluniau gweithredu 5 mlynedd i gefnogi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol, mae hwn yn ddisgwyliad rhesymol sydd eisoes ar waith. Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn yn cefnogi'r dull hwn yn gyffredinol.

**Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Rhan 5)**

**11. I ba raddau y mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu digon o eglurder a sicrwydd am rôl yr Athrofa newydd yn y sector ôl-orfodol ac, yn benodol, o fewn y sector addysg orfodol?**

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi’n glir mai ein polisi yw na fydd yr Athrofa yn darparu cyrsiau a gweithgareddau’n uniongyrchol i ddisgyblion ysgol, yn hytrach bydd y ddarpariaeth y mae’n ei chynllunio a’i threfnu ar gyfer y gweithlu addysg yn gwella’r ddarpariaeth ar gyfer plant 3-16 ac yn helpu i gysoni’r ddarpariaeth gyda'r continwwm sgiliau Cymraeg newydd.

Bydd yr Athrofa yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal cwricwlwm dysgu Cymraeg cenedlaethol ar gyfer pobl dros oedran ysgol gorfodol. Bydd hefyd yn darparu neu'n hwyluso’r modd y darperir adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi'r cwricwlwm y mae'n ei ddatblygu.

Bydd y cynnig cyson hwn i ddysgwyr dros oedran ysgol gorfodol yn rhoi mwy o eglurder i ddysgwyr ac yn golygu y bydd modd cydnabod dysgu blaenorol, gan alluogi dysgwyr i symud ymlaen yn ddi-dor rhwng darparwyr a/neu lefelau dysgu.

Ni fydd yr Athrofa yn gyfrifol am y cwricwlwm a addysgir mewn ysgolion ond bydd yn cynllunio a threfnu hyfforddiant a chefnogaeth arbenigol i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a rhannu arfer addysgeg da mewn perthynas ag addysgu a throsglwyddo’r Gymraeg.

**12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw'n bosibl nodi o ble y bydd yr adnodd yn cael ei symud na pennu ychwaith gost gywir ar gyfer Sefydliad newydd hyd nes y bydd yr Adolygiad o Wella Ysgolion – rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru wedi dod i ben. Pryd y byddwch yn gallu darparu i'r Pwyllgor ddadansoddiad manwl gywir o gostau'r Sefydliad fel y gall y Pwyllgor gynnal gwaith craffu manwl?**

Fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol, y costau a geir yno yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd. Disgwylir i ail gam yr Adolygiad o Wella Ysgolion ddod i ben erbyn dechrau 2025, pan ddisgwylir y bydd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno ar rolau, cyfrifoldebau a chynlluniau. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar gynllunio'r trefniadau pontio i'r drefn newydd. Disgwyliwn allu darparu dadansoddiad mwy cywir o’r costau unwaith y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno ar y trefniadau newydd.

**13. Faint o ddylanwad a fydd gan y Sefydliad newydd dros y sector addysg statudol i sicrhau bod y continwwm sgiliau uniaith Gymraeg yn cael ei weithredu'n effeithiol ac felly yn "gwella canlyniadau ieithyddol dysgwyr 3-16 oed?**

Bydd disgwyl i’r Athrofa gynllunio ar gyfer datblygiad y gweithlu addysg er mwyn cefnogi datblygiad addysgu’r Gymraeg ym mhob ysgol. Gall ymyriadau penodol gynnwys hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r continwwm; hyfforddiant a chymorth arbenigol i uwchsgilio'r gweithlu addysg; a rhannu arfer addysgeg da mewn perthynas â dulliau addysgu Cymraeg, gan gynnwys llythrennedd.

Bydd yr Athrofa yn cefnogi ysgolion yn benodol drwy ddarparu cyfleoedd i staff yr ysgol ddysgu Cymraeg a gwella eu lefelau gallu fel eu bod yn fwy hyderus i addysgu’r Gymraeg, i ddefnyddio’r Gymraeg wrth addysgu pynciau eraill, ac i ddefnyddio’r Gymraeg yn amgylchedd ehangach yr ysgol. Bydd yr Athrofa hefyd yn darparu neu’n hwyluso’r ddarpariaeth o ddeunyddiau i gefnogi dysgu a hyfforddiant o ran gweithredu’r continwwm newydd.

Bydd yr Athrofa yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, sefydliadau partner o'r sector addysg, ac awdurdodau lleol i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i ysgolion gyrraedd eu nodau dysgu Cymraeg.

**Costau'r ddeddfwriaeth**

**14. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tair senario bosibl, a fydd yn cael effaith ar gostau - yn senario 1, bydd popeth ar y trywydd iawn ar y cyfan ar gyfer Cymraeg 2050 a bydd y Bil yn syml yn cefnogi ac yn sicrhau bod hynny'n parhau; yn senario 2, nid yw pethau'n gwbl ar y trywydd iawn a bydd y Bil yn cywiro hynny ac yn sicrhau y gellir cyflwyno Cymraeg 2050; yn senario 3, mae pethau'n sylweddol oddi ar y trywydd iawn a bydd bodloni gofynion y Bil yn golygu newidiadau mawr a chyllid sylweddol. Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod Llywodraeth Cymru yn rhagweld senario 2 a rhaid tybio bod costau amcan y Bil - £103 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf - yn adlewyrchu senario 2. Nid yw'r Asesiad yn amcangyfrif costau'r ddwy sefyllfa arall, ond a allwch chi roi unrhyw arwydd o faint y bydd y Bil yn ei gostio, os digwydd senario 3?**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir (h.y. y Bil). Datblygwyd senarios fel ffordd o fynegi'r hyn a allai yn rhesymol ddigwydd i'r trefniadau presennol unwaith y daw'r Bil/opsiwn a ffefrir yn gyfraith. Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r trefniadau presennol a'r cynnydd tuag at dargedau allweddol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd graddau'r newid o'i gymharu â 'busnes fel arfer' yn debygol o ddod o dan Senario 2. Mae hyn yn ei hanfod yn golygu y bydd y Bil yn cryfhau'r seilwaith 'busnes fel arfer' presennol ac y byddai'n gosod disgwyliadau rhesymol ond heriol i sicrhau bod y trefniadau presennol (e.e. Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, categoreiddio ysgolion, trochi hwyr) yn sicrhau cynnydd gwell.

Pe bai senario 3 yn cael ei gwireddu yn lle hynny, rydym yn rhagweld y byddai costau ychwanegol yn y meysydd canlynol -
o Cefnogi ysgolion i wella neu gynyddu eu darpariaeth Gymraeg yn barhaus
o Trochi hwyr

Fodd bynnag, mae mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn golygu bod Senario 3 yn annhebygol o gael ei gwireddu. Mae'r mesurau lliniaru hyn yn cynnwys eithriadau dros dro ar gyfer ysgolion categori "Prif iaith: Saesneg, rhannol Gymraeg" ac ymrwymiad i ymgynghori ar ddarpariaethau allweddol y Bil, gan gynnwys y Fframwaith Cenedlaethol.

## Amserlen ddangosol ar gyfer gweithredu’r Bil

Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r rhagdybiaethau cynllunio presennol ar gyfer gweithredu'r Bil a bydd yn cael ei diweddaru wrth i ni barhau i weithio ar weithredu'r Bil ac wrth i ddibyniaethau rhwng gweithgareddau ddod i’r amlwg.

| Blwyddyn | Blwyddyn ariannol | Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| 1 | 2025-26 | Mai/Mehefin 2025 | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys targed Miliwn o Siaradwyr Cymraeg mewn strategaeth ar hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dod i rym. [Mae hyn eisoes ar waith felly, ni fydd angen gweithredu]. |
| | | Hydref 2025 | Ymgynghori ar y Cod |
| 2 | 2026-27 | Gorffennaf 2026 | Cod yn derfynol |
| | | Hydref 2026 | Ymgynghori ar y rheoliadau Categoreiddio iaith a’r CSCA |
| 3 | 2027-28 | Gorffennaf 2027 | Gwneud y rheoliadau categoreiddio iaith a CSCA |
| | | Gorffennaf 2027 | Cwblhau’r adolygiad Safonau |
| | | Awst 2027 | Sefydlu’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| | | Hydref 2027 | Ymgynghoriad ar y Strategaeth ddiwygiedig a’r Fframwaith Cenedlaethol |
| 4 | 2028-29 | Gorffennaf 2028 | Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ddiwygiedig a’r Fframwaith Cenedlaethol |
| | | Awst 2028 ymlaen | Awdurdodau Lleol yn paratoi’r CSCA newydd |
| 5 | 2029-30 | Gorffennaf 2029 | Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo’r CSCA newydd |
| | | Awst 2029 ymlaen | Ysgolion yn paratoi Cynlluniau Cyflawni (gan gymryd y CSCA i ystyriaeth) |
| 6 | 2030-31 | Gorffennaf 2030 | Terfyn amser i Awdurdodau Lleol gymeradwyo’r Cynlluniau Cyflawni (gan gynnwys categorïau ysgolion) |
| | | Awst 2030 | Cynlluniau Cyflawni ysgolion yn eu lle |
| 7 | 2031-32 | | |
| 8 | 2032-33 | Hydref 2032 | Adolygu’r Fframwaith Cenedlaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | 2033-34 | Ionawr  2033 | Cyflwyno'r 2il Cynllun Cyflawni i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo |
| | | Gorffennaf 2033 | Diwedd y cynlluniau Cyflawni (a diwedd yr esemptiad cyntaf, os yn gymwys) |
| 10 | 2034-35 | | |
| 11 | 2035-36 | Gorffennaf 2036 | Diwedd unrhyw esemptiad pellach |

# Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

## Amserlen ddanosgol ar gyfer gweithredu'r Bil

| Allwedd | |
|---|---|
| Melyn | Gweithgaredd i Weinidogion Cymru |
| Gwyrdd | Gweithgareddd i Awdurdodoau Lleol |
| Porffor golau | Gweithgaredd i ysgolion |
| Gwyn | Dim angen gweithgaredd i'w weithredu |

2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 | 2036

**Cod**

- Ymgynghori ar y Cod Hydref 2025
- Cod yn derfynol Gorffennaf 2026

**Categoreiddio Iaith**

- Ysgolion yn paratoi Cynlluniau Cyflawni Awst 2029 ymlaen
- A LL i Gymeradwyo'r Cynlluniau Cyflawni Erbyn Gorffennaf 2030
- Cynlluniau Cyflawni yn eu lle, Awst 2030 (rhedeg hyd Gorffennaf 2033) Gorffennaf 2033 -Diwedd yr esemptiad cyntaf, os yn gymwys.
- Cyflwyno'r 2il Cynllun Cyflawni i'r ALl ei gymeradwyo Ionawr 2033
- Ail Cynlluniau Cyflawni yn eu lle Awst 2033 (rhedeg hyd Gorffennaf 2036) Gorffennaf 2036 – Diwedd unrhyw esemptiad pellach
- Ymgynghori ar y rheoliadau Categoreiddio Iaith a'r CSCA Hydref 2026
- Gwneud y rheoliadau Categoreiddio iaith a CSCA Gorffennaf 2027

**CSCA**

- A Ll yn paratoi'r CSCA newydd Awst 2028 ymlaen
- GC yn cymeradwyo'r CSGA newydd Gorffennaf 2029

**Strategaeth a Fframwaith Cenedlaethol**

- Dyletswydd i gynnwys targed Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn y strategaeth yn dod i rym. Cydsyniad Brenhinol (May/June 2025)
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth diwygiedig a'r Fframwaith Cenedlaethol Hydref 2027
- Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ddiwygiedig a'r Fframwaith Cenedlethol Gorffennaf 2028
- Adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol Hydref 2032

**Arall**

- Cwblhau'r adolygiad Safonau Gorffennaf 2027
- Sefydlu'r Athrofa Gorffennaf 2027

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

Seneddplant@senedd.wales

15 Hydref 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: cyfarfod Cyngor y Gweinidogion Addysg – 20 Tachwedd 2024**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod o Gyngor y Gweinidogion Addysg, a gynhelir yn Lisburn, Gogledd Iwerddon ar 20 Tachwedd 2024.

Bydd y cyfarfod wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon. Bydd agenda'r cyfarfod yn cynnwys trafodaethau ynghylch dysgu proffesiynol a recriwtio a chadw athrawon.

Bydd diweddariad yn cael ei roi ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3.4

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

16 Hydref 2024

Annwyl Buffy,

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig, 10 Hydref 2024, yn holi am eglurhad ynghylch y drafftio yn adran 23(3) Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

Gallaf gadarnhau mai'r geiriad '*annog dilyniant'* yn adran 23(3)(e) yn y fersiwn Gymraeg o'r Bil sydd yn gywir ac yn adlewyrchu'r bwriad polisi.

Byddaf yn cyflwyno gwelliant technegol ar gyfer ystyriaeth yn ystod Cyfnod 2 y broses graffu fydd yn newid geiriad y fersiwn Saesneg i adlewyrchu testun y fersiwn Gymraeg. Bydd y gwelliant hwnnw yn hepgor "*to facilitate*" yn 23(3)(e) yn fersiwn Saesneg y Bil, fel y'u cyflwynwyd, ac yn mewnosod y gair "*encouraging*".

Rydym o'r farn byddai'r newid uchod hefyd yn delio gyda'r ail bwynt yn eich llythyr ynglŷn â llif y geiriau yn y testun Saesneg.

Byddwn hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw welliannau pellach o ganlyniad i'r newid hwn.

Rwy'n ddiolchgar i chi am ddod â'r mater hwn i'm sylw ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi drwy weddill y broses graffu.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pa mor realistig yw'r nod bod pob disgybl yn 'ddefnyddiwr annibynnol' y Gymraeg erbyn iddynt orffen addysg orfodol? Pa mor anodd fydd hi i ysgolion prif iaith Saesneg, rhannol Gymraeg gynorthwyo eu disgyblion i ddod yn 'ddefnyddwyr sylfaenol', sef eu nod yn y lle cyntaf o dan y Bil?

Rydym yn credu ei fod e'n realistig i gael bron pob disgybl i fod yn ddefnyddwyr annibynnol o'r Gymraeg erbyn yr amser maen nhw'n gorffen addysg statudol. Fodd bynnag, i wneud hyn, mae'n rhaid sicrhau bod gwelliant a chysondeb yn y ddarpariaeth ar draws Cymru i sicrhau ein bod ni'n creu siaradwyr. Mae angen trefniadau cadarn mewn lle i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynydd ac yn cael cyfleodd dilyniant priodol gydol eu hamser mewn addysg statudol. Mae'n rhaid sicrhau hefyd bod datblygiad proffesiynol effeithiol yn ei le ar gyfer athrawon a chynorthwyon a bod arweinwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg gan osod gweledigaeth glir ar gyfer yr iaith.

Yn ein hadroddiad blynyddol llynedd, nodwyd 'Ble roedd y gefnogaeth a'r brwdfrydedd i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn gadarn, roedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg gan osod gweledigaeth glir a chynllun gwella strategol a bwriadus ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth. Yn yr arferion effeithiol hyn ym mhob sector, roedd arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chefnogaeth i ymarferwyr ddatblygu eu medrau i gefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg mewn modd adeiladol dros gyfnod. Roedd hyn yn meithrin brwdfrydedd a hyder ymysg ymarferwyr a oedd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar ddysgwyr i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol ddigymell mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, chwaraeodd cynlluniau fel y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg rôl allweddol wrth ddatblygu medrau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ambell ysgol a chlwstwr (Llywodraeth Cymru, 2021a). Yn yr enghreifftiau gorau, gwelsom effaith y ddarpariaeth ar athrawon unigol a sut bu iddynt ddefnyddio'r hyn a ddysgont i ddylanwadu ar eraill. Yn bwysicaf oll, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar addysgu a safonau'r Gymraeg yn yr ysgolion hyn. Darllenwch am sut datblygodd St David's R.C. Primary School, Cwmbran y Gymraeg o ganlyniad i ddysgu proffesiynol bwriadus.

Yn yr arferion llai cadarnhaol, nid oedd arweinwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg nac yn hyrwyddo buddion bod yn ddwyieithog ac amlieithog yn ddigonol. Yn aml, nid oeddent yn ystyried yn briodol gynnydd disgyblion na'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg wrth hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, yn rhy aml, roeddent yn ystyried bod defnyddio ychydig iawn o gyfarchion a geiriau Cymraeg gyda disgyblion yn ddigonol ac nid oedd cynllun i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg tu hwnt i ychydig o wersi penodol. Yn ogystal, ychydig iawn o ddysgu proffesiynol a

roddwyd i helpu staff i ddatblygu eu medrau a'u hyder yn y Gymraeg. Testun pryder yw bod y sefyllfa hon wedi parhau mewn rhai ysgolion dros gyfnod hir.

Rydych chi'n awgrymu yn eich tystiolaeth ysgrifenedig y gellid cryfhau geiriad adran 22(2)(b) fel y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol "hyrwyddo a hybu" addysg drochi hwyr yn Gymraeg yn hytrach na dim ond "darparu gwybodaeth a chyngor" yn ei chylch. A allwch chi ymhelaethu ar ba mor angenrheidiol yw hyn yn eich barn chi, o gofio bod adran 22(2)(a) eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol "annog galw" a "chyfranogi" mewn addysg drochi hwyr yn y Gymraeg?

Credwn y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth drochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr. Awgrymwn gryfhau'r geiriad *'Mae gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor...i blant o oedran ysgol orfodol yn ei ardal a rhieni plant yn ei ardal'* 22 (2)(b)(i) (ii) i hyrwyddo a hybu. Os ydym am gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, mae hyrwyddo a phwysleisio pwysigrwydd trochi i rieni yn angenrheidiol. Gweler yr astudiaethau achos canlynol:

Trochi effeithiol: cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyflym tra'n eu cynorthwyo i ddysgu a gwerthfawrogi hanes a diwylliant Cymru. - Estyn (llyw.cymru)

Defnyddio'r Gymraeg: gweithgareddau allgyrsiol bwriadus ac unigryw sy'n cefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell ar safle'r Nant ac yn y gymuned leol - Estyn (llyw.cymru)

Teimlwn ei fod e'n hanfodol i awdurdodau i hyrwyddo a hybu trefniadau trochi fel eu bod nhw'n gallu gwneud yn glir i rieni'r manteision o drochi wrth ddatblygu medrau Cymraeg eu plant. Mae hwn yn gryfach na 'darparu gwybodaeth a chyngor' ac mae'n gosod disgwyliad i Awdurdodau Addysg Leol i ddatblygu'r gwaith trochi, ystyried trochi yn ei ystyr ehangach (e.e. wrth ddatblygu medrau disgyblion mewn ysgolion Saesneg, datblygu addysgeg yn ogystal â pharatoi disgyblion ar gyfer addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Rydych chi'n nodi yn eich tystiolaeth eich bod chi'n croesawu'r egwyddor o ganoli cymorth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes o fewn un corff. A allech chi ymhelaethu ar eich rheswm dros hynny, a pham rydych chi'n nodi y dylai hyn gynnwys addysg ysgol?

Cytunwn yn gryf â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad sef 'Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol'. Yr amcan yma '*yw cefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso'u cynnydd, fel bod rhagor o bobl (o bob oedran) yn dysgu'r iaith'* 37 (1). Bydd sefydlu'r athrofa'n galluogi arbenigwyr o bob sector i ddod at ei gilydd er mwyn cynllunio'n ieithyddol ar draws yr holl sectorau gan ddarparu cysondeb i daith dysgwyr o bob oedran ar hyd y continwwm iaith.

Rydym wedi arolygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ddwywaith yn ystod y cylch arolygu diwethaf. Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi dylanwadu'n sylweddol ar y tirlun dysgu Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf - yn ogystal â chynnal ac

ymestyn safonau da neu well o fewn y sector Cymraeg i oedolion, rydym wedi ei gweld, drwy bartneriaethau gyda phartneriaid niferus, yn dod yn ddylanwadwr ieithyddol. Mae Cynllun Cymraeg Gwaith wedi esblygu ar raddfa gyflym  - er enghraifft wrth gefnogi polisi'r llywodraeth yn y sector iechyd (Mwy na Geiriau, mae tiwtor wedi ei benodi ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru i gefnogi'r gweithlu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i gleifion. Maen't wedi cyd-weithio gyda Mudiad Meithrin - Clwb Cwtsh ac ystod eang o bartneriaid eraill.

Mae angen adeiladu ac ymestyn ar arbenigedd a gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol wrth sefydlu'r corff hwn a fydd yn bwerdy i ledaenu arferion da, codi disgwyliadau pob sector a chysoni'r hyn sy'n digwydd ar draws sectorau addysg statudol ac mewn gwirionedd anstatudol, er enghraifft addysg i oedolion. Credwn fod rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ar ei newydd wedd yn allweddol nid yn unig o ran hyfforddi'r gweithlu addysg ond hefyd o ran gwella addysgeg y gweithlu hwnnw a chaffael ail iaith yn llwyddiannus fel cyfrwng cyfathrebu. Mae'r pwyslais ar gyfathrebu ar lafar yn hytrach nag addysgu fel pwnc gydag arholiadau yn brif nod ac yn un hollbwysig. Dyma enghreifftiau isod o'r hyn sydd ar gael drwy'r Ganolfan ar hyn o bryd.

Adroddiad arolygiad Dysgu Cymraeg Learn Welsh Nant Gwrtheyrn 2023 (llyw.cymru)

Trochi effeithiol: cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd cyflym tra'n eu cynorthwyo i ddysgu a gwerthfawrogi hanes a diwylliant Cymru. - Estyn (llyw.cymru)

Defnyddio'r Gymraeg: gweithgareddau allgyrsiol bwriadus ac unigryw sy'n cefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell ar safle'r Nant ac yn y gymuned leol - Estyn (llyw.cymru)

Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol arbenigedd o ran dysgu a chaffael iaith ac rydym yn ystod ein harolygiadau wedi nodi y dylid rhannu'r fath arbenigedd gyda sectorau eraill. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi astudiaethau achos ynglŷn â'r ffordd mae'r sector Cymraeg i oedolion yn cynhyrchu siaradwyr gweithredol, er enghraifft

Cymorth effeithiol yn helpu dysgwyr i siarad Cymraeg yn rhugl - Estyn (llyw.cymru)

Troi dysgwyr yn ddefnyddwyr y Gymraeg - Estyn (llyw.cymru) yn ogystal â chynnig hyfforddiant gwerthfawr i'r gweithlu addysg:

Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg - Estyn (llyw.cymru)

Mae'r Ganolfan, a'r sector Cymraeg i oedolion, yn gyfarwydd iawn â disgwyliadau a lefelau'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR). O ganlyniad, byddai modd ystyried ac addasu cwricwlwm cenedlaethol y sector, sydd yn seiliedig ar y CEFR, fel sail ar gyfer y continwwm iaith ym mhob sector. Mae'r Ganolfan Genedlaethol eisoes yn gyfrifol am hyfforddiant Cymraeg i weithluoedd drwy raglenni Cymraeg Gwaith. Credwn felly, y byddai'n rhesymegol i ymestyn swyddogaeth y

Ganolfan Genedlaethol, gan fanteisio ar ei phrofiad ac arbenigedd, i greu corff fyddai'n cynnig arweiniad strategol ac ymarferol ar draws y sectorau addysg. Gweler yr adroddiad arolygu diweddaraf (Ebrill/Mai 24) sydd yn amlinellu sut mae rôl y Ganolfan Genedlaethol wedi esblygu'n gyflym iawn ac mae'n gorff effeithiol. Wrth sefydlu'r Athrofa, bydd angen sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu nodi'n glir gan ddangos sut mae'r Athrofa yn cyd-blethu gydag unrhyw gyrff perthnasol eraill.

Credwn ei bod yn holl bwysig i ddysgwyr o bob oed feddu ar gyfleoedd i ddechrau neu barhau ar eu taith tuag at ddod yn siaradwyr gweithredol. Byddai creu un continwwm iaith, yn ogystal â chynlluniau penodol, fel y cynllun newydd i gynnig cyrsiau am ddim i bobl 16-25 oed, yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol gyfartal i ddysgwyr o bob oed wneud hynny. Credwn hefyd fod angen i addysg gydol oes, gan gynnwys partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, wneud llawer mwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd i gynnig cyfleoedd cyfartal i siaradwyr Cymraeg, boed hynny yn ddysgwyr hyfedr neu siaradwyr rhugl, ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac o ganlyniad wella a defnyddio eu medrau ieithyddol. Teimlwn fod angen deall addysgeg effeithiol o ran addysgu a chaffael y Gymraeg fel ail iaith, er enghraifft fel y gwelir yn sector Cymraeg i oedolion. Mae'r astudiaeth achos Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg - Estyn (llyw.cymru) yn dangos y math o waith sydd wedi digwydd ac sydd erbyn hyn wedi tyfu i fod yn gynnig cynyddol eang i'r gweithlu addysg trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae astudiaeth achos arall yn sgil arolygiad y Ganolfan (heb ei chyhoedd eto) sef 'Sut mae'r sector Dysgu Cymraeg yn dylanwadu ar addysgeg a chaffael iaith mewn sectorau eraill yng Nghymru a thu hwnt.'

Rydyn yn gwerthfawrogi gweld 'Caiff yr Athrofa Dysgu Cymraeg...roi cymorth ariannol i ddarparwyr ddysgu Cymraeg mewn perthynas ag addysg neu ddysgu Cymraeg' 37 (3) (c). Credwn yn gryf na ddylai arian fod yn rhwystr i bobl Cymru ddysgu'r Gymraeg.

Bydd angen ystyried o fewn y Bil a oes gan Estyn y pwerau priodol i gynnal ac o bosib ymestyn eu gwaith arolygu pan ddiddymir y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a chreu Yr Athrofa.

Mae Estyn yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n gosod continwwm sgiliau iaith Gymraeg (yn seiliedig ar y CEFR) ar sail statudol, ond galwodd hefyd am "raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol" ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dosbarth. A yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol yn darparu'r sicrwydd sydd ei angen mai felly y bydd, a pha fodd y gellid ei gryfhau?

Wrth gyflwyno continwwm iaith, credwn yn gryf bod angen rhaglen ddwys o ddatblygiad proffesiynol. Mae lle i gryfhau'r disgwyliadau, er enghraifft wrth osod disgwyliadau ar gyfer trochi athrawon newydd i'r system yng Nghymru, wrth sicrhau bod gan athrawon a chynorthwyon yr hyder a'r gallu i ddatblygu medrau Cymraeg y

disgyblion yn unol â'r continwwm iaith, i sicrhau bod datblygiad proffesiynol ar gyfer gwella addysgu'r Gymraeg e.e. yr addysgeg orau ar gyfer cyflwyno iaith.

Hoffem ni weld rôl bendant i'r athrofa mewn arwain ar addysgeg a bod yn greiddiol i ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg cyn, yn ystod ac ôl statudol - a derbyn y bydd angen addasu'r addysgeg yn ôl oedran/gallu.  Byddai hyn yn cefnogi a chyfoethogi'r cysyniad o un continwwm.

Eitem 3.6

**Y Pwyllgor Deisebau**

—

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

16 Hydref 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

**Deiseb P-06-1403 Ailystyried Toriadau i Gyllid Ôl-raddedig a Chynyddu Benthyciadau Doethuriaeth i Gyfateb ag Ariantal Ymchwil ac Arloesedd y DU (UKRI)**

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 16 Medi i drafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Micaela Panes.

Mewn gohebiaeth a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau, dywedodd y deisebydd nad oedd yn credu bod y Gweinidog Addysg ar y pryd wedi archwilio'n drylwyr i effaith torri grantiau a bwrsariaethau ôl-raddedig ac, o ganlyniad i'r toriadau, y byddai myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol yn colli cyfleoedd ar gyfer addysg. Nododd y bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr cartref sy'n dewis peidio â dilyn graddau ôl-raddedig oherwydd diffyg cymorth ariannol, gan nodi arolwg Undeb Myfyrwyr Grŵp Russell.[1].

Hoffem dynnu sylw at y pryderon a godwyd cyn gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma:

https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42854#:~:text=With%20the%20current%20cost-of-living%20crisis,%20the%20decline%20in

[1] https://russellgroupstudentsunions.org/cost-of-living-report

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb dros neges e-bost i'r tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol:

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

17 Hydref 2024

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Annwyl Jeremy, Dawn a Sarah,

Fel y llynedd, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 13 Rhagfyr 2024 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o’r meysydd a restrir yn yr atodiad i’r llythyr hwn ddiddordeb hefyd, rwy’n anfon copi at gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cais i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2025-26

## 1. Dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (fel sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2025-26
- Dyraniadau Cyllideb Derfynol 2024-25
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25:
- Cyllideb ddangosol 2026-27 (os y pennwyd)
- Disgrifiad o unrhyw newidiadau i linellau sylfaen a ddefnyddir yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 o Gyllideb Atodol Gyntaf Mehefin 2024.

## 2. Portffolio Gweinidogol Newydd: plant a gofal cymdeithasol

Esboniad naratif o rôl deilydd portffolio newydd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol o ran dyraniadau cyllideb i blant ar draws y llywodraeth.

## 3. Asesiadau o effaith

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant Cyfunol ar draws pob portffolio: Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i lywio'r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2025-26.
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2025-26.
- Effeithiau eraill: Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o gydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 4. Y Rhaglen Lywodraethu

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 a'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid yng nghyd-destun Adroddiad Blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru am:

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Dyraniadau y gofynnwyd amdanynt a manylion naratif |
|---|---|
| Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o’r system ofal. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26. |
| Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26. |
| Dileu elw preifat o ofal plant sy’n derbyn gofal. | Dadansoddiad o'r ymrwymiad o £68 miliwn dros 2022-23, 2023-24 a 2024-25.<br>▪ Dyraniadau a gwariant fesul blwyddyn<br>▪ Allbynnau / lleoliadau newydd fesul awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd |
| Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26. |
| Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion byd gwaith. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26. |
| Ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26.<br>Gofal Plant Dechrau'n Deg: amcangyfrif o’r nifer presennol o blant 2 oed sydd wedi cael cynnig y 15 awr, fesul awdurdod lleol.<br>Gofal Plant Dechrau'n Deg: llinell amser hyd at 2026, ar gyfer cyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar i blant 2 oed ar draws pob awdurdod lleol, o'r llinell sylfaen bresennol. |
| Dechrau'n Deg (y pedwar hawl). | Dyraniadau a naratif cysylltiedig yn nodi allbynnau a chanlyniadau dymunol ar gyfer 2025-26 (refeniw a chyfalaf). |

## 5. Gofal cymdeithasol plant

Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant

Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â chymorth ychwanegol i awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, megis cyfraddau swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth.

Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Cyfanswm y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal

Cyfanswm y Gronfa a dadansoddiad o'r holl ddyraniadau.

## 6. Iechyd plant

- Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:
- Mynd i'r afael ag amseroedd aros pediatrig y GIG
- Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu
- Strategaeth gordewdra
- Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a'r berthynas rhwng rhieni a babanod
- Gwasanaethau anhwylderau bwyta
- Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc
- Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fêpio ymhlith plant a phobl ifanc
- Gwasanaethau niwroddatblygiadol
- Unrhyw newidiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'r trefniadau newydd ar gyfer iechyd meddwl yn Uned Ddiogel Hillside. Fe wnaethoch gadarnhau i ni yn ysgrifenedig yn ddiweddar y bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar waith o fis Chwefror 2025 rhwng Hillside a Bae Abertawe "gan alluogi dull mwy holistaidd o ymdrin ag anghenion iechyd meddwl y bobl ifanc sy'n byw yn Hillside."

## 7. Costau byw

Sylwebaeth gyffredinol am effaith costau byw ar y canlynol:

- **Byrddau iechyd:** darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.

- **Gwasanaethau cymdeithasol:** darparu holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

- **Tlodi plant:** manylion am ba drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda chydweithwyr perthnasol eraill yn y cabinet, mewn perthynas â dyraniadau a gaiff effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach fel tlodi plant.

## 8. Costau deddfwriaeth

- Goblygiadau ariannol neu a ragwelir o unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o fewn portffolio'r Gweinidog.

- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

17 Hydref 2024

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26**


Annwyl Lynne a Vikki,

Fel y llynedd, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 13 Rhagfyr 2024 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y diddordeb a rennir ar draws pwyllgorau ynghylch rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rwyf wedi anfon copi at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cais i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 2025-26

## Meysydd trawsbynciol

### Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Fel gyda'r blynyddoedd blaenorol, gofynnwn am esboniad clir a thryloyw o'r newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn gyffredinol yn 2025-26, o 2024-25, gan gynnwys cymhariaeth â'r wir gyllideb yn ychwanegol at unrhyw waelodlin ddiwygiedig a ddefnyddir. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi crynodeb o'r newidiadau allweddol rhwng 2024-25 a 2025-26.

Os defnyddir gwaelodlin ddiwygiedig, rydym yn gofyn am ddadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u tynnu o gyllideb 2024-25 neu eu hychwanegu at gyllideb 2024-25 ac esboniad ym mhob achos pam y bernir ei bod yn briodol defnyddio'r waelodlin ddiwygiedig yn hytrach na'r wir gyllideb a osodwyd yn 2025-26 ar gyfer cymariaethau.

Ar gyfer newidiadau sylweddol i linellau cyllideb, hoffem gael eglurhad p'un a fydd cyllid yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill naill ai o fewn neu y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant.

### Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Gofynnwn am gael sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad ac eglurhad o newidiadau arwyddocaol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 (Hydref 2024). Yn y gorffennol, roedd hyn yn cael ei ddarparu mewn atodiad – roedd yn Atodiad B y llynedd.

At hynny, gofynnwn am ddadansoddiad o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2025-26 a'r Prif Grŵp Gwariant yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gyda dyraniadau Cyllideb Derfynol 2024-25, dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, rhagolygon alldro 2024-25, ac alldro terfynol 2023-24 i gyd wedi'u cynnwys. Os yw cyllidebau dangosol yn cael eu gosod y tu hwnt i 2025-26, rydym yn gofyn am fanylion y rhai hynny hefyd.

Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, rydym yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 gael eu cyflwyno ochr yn


Senedd Cymru
Welsh Parliament

ochr â'r dyraniadau cyllideb ddrafft 2025-26 yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen (fel y nodwyd yn gynharach).

## Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill

Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru – ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y rheini – gan gynnwys:

- Asesiad wedi'i ddiweddaru gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch i ba raddau y mae'n credu bod y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cynnwys yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.
- Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau sy'n mynd rhagddynt gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i gynyddu lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion drwy'r Setliad Llywodraeth Leol.
- Manylion ynghylch sut mae dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn alinio â'r Rhaglen Lywodraethu.
- A yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu targedu adnoddau, ac os felly sut, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw themâu neu flaenoriaethau trawsbynciol ar draws y Prif Grŵp Gwariant yn ei gyfanrwydd, er enghraifft y adduned y Prif Weinidog i "hybu safonau yn ein hysgolion a'n colegau", a blaenoriaethau'r Ysgrifennydd Cabinet ei hun a amlinellwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mai 2024.

## Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Yn unol ag asesu a roddwyd 'sylw dyledus' i erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), gofynnwn am:

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant cyffredinol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Addysg drafft hwn ar gyfer 2025-26 sy'n nodi sut mae hawliau plant yn cael eu gweithredu yn y dyraniadau cyllideb hyn, gan gyfeirio at erthyglau penodol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sy'n berthnasol.
- Os na chynhaliwyd Asesiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant, y rhesymau dros hyn.
- Copi o unrhyw asesiad arall o'r effaith integredig yn ogystal â sicrwydd bod yr asesiad hwn yn dangos bod y ddyletswydd o "roi sylw dyledus" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i harfer.
- Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y MEG Addysg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y

Gymraeg, neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

Costau deddfwriaeth

- Manylion y dyraniadau yng nghyllideb 2025-26 a fwriedir ar gyfer gweithredu deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd yn ystod dau dymor diwethaf y Senedd, gan gynnwys Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.
- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2025-26.

Effaith pandemig COVID-19

- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth sy'n weddill yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2024-25 a 2025-26 ar gyfer ymdrin ag effaith y pandemig a'r adferiad, er enghraifft a yw'r rhaglen "Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau" yn parhau yn 2025-26.

Effaith pwysau costau byw ar ddarparu gwasanaethau addysg

- Diweddariad ar oblygiadau pwysau costau byw a phrisiau ynni ar ddarparu sefydliadau addysg yn weithredol – ar draws y blynyddoedd cynnar, ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant.

Monitro'r gyllideb a'r cyd-destun ariannol presennol

- Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg drwy gydol y flwyddyn, nodi diffygion a gwargedion posibl, a chymryd camau adferol neu ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion, yn enwedig yn sgil y pandemig.
- Manylion am unrhyw newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2024-25 y'u disgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.
- Goblygiadau Cyllideb Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2024 i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg.

## Meysydd penodol

Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

- Esboniad o sut mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 (yn y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg) ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion wrth osod y gyllideb hon.
- Diweddariad ar yr adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnal o gyllid ysgolion prif ffrwd awdurdodau lleol, a diwygiadau posibl i Reoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010.
- Safbwynt y Gweinidog ar lefel y cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb ysgolion, yng nghyd-destun data 31 Mawrth 2024 sydd i'w gyhoeddi ddiwedd mis Hydref 2024.

## Cyllid ar gyfer gwella ysgolion a chodi safonau

- Esboniad o sut mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn cefnogi gwella ysgolion a chodi safonau addysg.
- Manylion Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2025-26, gan gynnwys dadansoddiad o'i bedair elfen.
- Manylion faint o Grant Addysg Awdurdodau Lleol a dalwyd i bob awdurdod lleol yn 2024-25, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl y bedair elfen.
- Unrhyw asesiad a gynhaliwyd i weld a yw cyfuno'r grantiau unigol â'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn 2024-25 wedi arwain at wanhau unrhyw weithgareddau ac ymyriadau a oedd gynt wedi'u neilltuo.
- Gwybodaeth am ddyraniadau cyllideb i gefnogi ymdrechion i wella safonau llythrennedd a rhifedd ac unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o'u heffeithiolrwydd a gwerth am arian.

## Costau byw a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol

- Gwybodaeth ar sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cael eu defnyddio i leihau ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol - gan gynnwys o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb "Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad" neu o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.
- Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgolion a gwariant yn 2023-24 a'r ddarpariaeth a ragwelir yn 2024-25.
- Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr mewn addysg ôl-16 gydag effaith pwysau costau byw, ac i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau (gan gynnwys, er enghraifft,

drwy gyllid cronfa caledi ar gyfer darparwyr, neu drwy gyllid cymorth i fyfyrwyr sy’n bodoli eisoes fel y Lwfans Cynhaliaeth Addysg).

- Darpariaeth gyllidebol ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd yn 2024-25 ac a oes angen unrhyw gyllideb ar gyfer hyn yn 2025-26, o ystyried y cwblhawyd y broses o’i gyflwyno ym mis Medi 2024.
- Dadansoddiad pellach o’r cyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2024-25 ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i bawb.
- Unrhyw gyllid arall yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â chostau byw a'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft rhaglen gwella gwyliau’r haf / haf o hwyl / prosiectau bwyd a hwyl, gan gynnwys esboniad o sut mae’r prosiectau hyn a’r ffrydiau ariannu yn perthyn i’w gilydd.

## Y gweithlu addysg

- Manylion y dyraniadau’r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), gan gynnwys cyllid a mentrau sydd wedi’u targedu at fynd i’r afael â phrinder mewn pynciau neu feysydd penodol, ac unrhyw asesiad sydd wedi’i wneud o’u heffeithiolrwydd a’u gwerth am arian.
- Manylion dyraniadau’r gyllideb i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol, gan gynnwys yn sgil y gwaith parhaus o weithredu diwygiadau addysg.
- Gwybodaeth am gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.
- Manylion am unrhyw ddarpariaeth cyllideb ar gyfer talu costau dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26 a'r mecanweithiau priodol a ddefnyddiwyd (p'un a ydynt yn grant uniongyrchol neu wedi’u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).
- Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynghylch y gweithlu athrawon cyflenwi.

## Diwygio’r cwricwlwm

- Gwybodaeth am gyllid i gefnogi’r gwaith o weithredu’r Cwricwlwm i Gymru.

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

- Darpariaeth y gyllideb o’r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2025-26 o ran y dull/system ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol.

- Manylion unrhyw arian o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.
- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd meddyliol ac emosiynol pobl ifanc mewn addysg ôl-16.
- Darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymateb ehangach i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.

## Absenoldeb disgyblion

- Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth benodol yn y gyllideb i fynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb disgyblion neu nodi pa linellau cyllideb sy'n cefnogi gwaith o'r fath yn fwy cyffredinol.

## Chwaraeon ac ymarfer corff

- Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn cefnogi'r ddarpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc, boed hynny yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol, a sut mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gyllid yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol megis ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach.

## Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

- Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2025-26 a sut mae hyn yn cael ei ddosbarthu fel rhan o'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

## Additional Learning Needs

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth ddarparu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol bresennol, effaith y cyllid ychwanegol yn y blynyddoedd blaenorol ac a fydd cyllid ychwanegol pellach yn cael ei gynnal/darparu yn 2025-26.
- Gwybodaeth am y ddarpariaeth ariannol ar gyfer rhoi Deddf 2018 ar waith gan gynnwys asesiad wedi'i ddiweddaru ynghylch a yw diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol profi i fod yn niwtral o ran cost.
- Gwybodaeth am sut mae cyllid ar gyfer darpariaeth ADY yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o gyllid ysgolion prif ffrwd awdurdodau lleol.

- Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru ac unrhyw drefniant cyllid grant gyda sefydliadau addysg uwch.

## Estyn

- Manylion dyraniad cyllideb craidd Estyn ar gyfer 2025-26 a pha Brif Grŵp Gwariant y mae hwn wedi'i leoli ynddo, yn ogystal â'r rhesymeg dros hyn.
- Manylion unrhyw gyllid ychwanegol o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer rôl Estyn mewn diwygiadau addysg.

## Cymwysterau

- Manylion y cyllid a ddyrennir i Cymwysterau Cymru yn 2025-26 a manylion unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru a diwygiadau cymwysterau galwedigaethol.

## Y Gymraeg mewn Addysg

- Manylion dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn addysg, a rôl y sector addysg o ran cyrraedd targed Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- Sut mae dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg yn berthnasol i gyllidebau eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg, er enghraifft Cam Gweithredu y Gymraeg yn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (yng Nghyllideb Atodol Cyntaf 2024-25).
- A oes cyllid penodol wedi'i neilltuo ar gyfer gweithredu Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) neu a fydd hwn yn cael ei dalu o fewn y Llinellau Gwariant presennol yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg a'r Gymraeg mewn Addysg.
- Gwybodaeth am gyllid a ddyrannwyd i wella'r gweithlu Cymraeg mewn addysg.

## Addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant

- A yw'r cyllid yn y Grant Addysg Awdurdodau Lleol i sicrhau bod cyfraddau ariannu addysg plentyndod cynnar mewn lleoliadau nas cynhelir gyda'r Cynnig Gofal Plant yn parhau yn 2025-26.
- Manylion unrhyw gyllid arall o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg i gefnogi darpariaeth addysg plentyndod cynnar y sector nas cynhelir a'r Cwricwlwm i Gymru, a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r cyllid ar gyfer cyfrifoldebau'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Gwaith ieuenctid

- Manylion ynghylch sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2025-26 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer bodloni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu o ran cryfhau gwasanaethau ieuenctid.
- Manylion ynghylch sut mae Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2025-26 yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu.

Dysgu ar gyfer Troseddwyr

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb yn 2025-26 ac unrhyw newidiadau i sut y caiff ei wario o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Addysg bellach, chweched dosbarth ac addysg i oedolion yn y gymuned

- Manylion dyraniadau cyflawn 2024-25 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau holl gydrannau'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, lwfans amddifadedd, teneurwydd y boblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, y lwfans cynnal a'r addasiad Dysgu Oedolion Cymru).
- Manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu Chweched Dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.
- Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2025-26 at ddibenion cyflawni cydraddoldeb cyflog a/neu er mwyn bodloni unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a Chweched Dosbarth, gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i fodloni'n llawn unrhyw ddyfarniad cyflog / cyfwerthedd cyflog y cytunwyd arno dros gyfnod y gyllideb hon.
- Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion a'r Gymuned.
- Y rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2023-24 a 2024-25 a ddefnyddir wrth gyfrifo'r cyllid ar gyfer Addysg Bellach a'r Chweched Dosbarth.

Addysg uwch, a chymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-16

- Manylion dyraniad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.
- Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2025-26 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd, ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu i ddysgu prentisiaid presennol.

- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i fod ar gael ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, gan gynnwys unrhyw amodau i'w gosod arno gan Lywodraeth Cymru.

- Manylion am unrhyw gronfeydd wrth gefn / cynlluniau wrth gefn / cronfeydd heb eu dyrannu o fewn unrhyw un o'r llinellau gwariant yn ymwneud ag addysg drydyddol 2025-26, gan gynnwys y llinellau gwariant o fewn y cam gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16; manylion sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio / sut gellir ei ddefnyddio; a manylion am unrhyw ddefnydd ohonynt yn ystod 2023-24 a 2024-25.

## Darpariaeth addysg ôl-16 arall

- Manylion cyllido'r Cyfrif Dysgu Personol.

- Manylion cyllideb y Gymraeg mewn Addysg gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cenedlaethol.

- Manylion y cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (Taith).

## Y Warant i Bobl Ifanc

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc a sut mae'n ymwneud â chyllid o Brif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yn hyn o dan Fand B.

- Cadarnhad bod Band A bellach wedi'i gwblhau a'r gwariant terfynol a nifer y prosiectau.

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o oblygiadau costau byw, er enghraifft prisiau ynni ac adeiladu, ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau.

- Y goblygiadau ariannol o bolisïau sero net carbon Llywodraeth Cymru a sut mae hyn yn effeithio ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg yng nghyllideb ddrafft 2025-26.

## Cyllid cyfalaf at ddibenion gofal plant

- Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer y rhaglen Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg ac unrhyw ddyraniadau at ddibenion yr ymrwymiad i gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn 2 oed.

- Gwybodaeth am drefniadau ar gyfer cyllid sydd â'r nod o gynyddu natur ystadau addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac addasu safleoedd i gael eu defnyddio gan y gymuned.